Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Adolygu Gwerth am Arian Trefniadau Ariannu Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu Mentrau Cymdeithasol

## Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Meirion Thomas ac Eva Trier

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ i

1. Rhagarweiniad ........ 1

 1.1 Nodau ac amcanion ........ 1

 1.2 Y gwaith a wnaethpwyd ........ 2

 1.3 Dull ........ 3

2. Y cyd-destun a'r cefndir ........ 4

3. Adolygu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd CYD ........ 7

 3.1 Economi ........ 7

 3.2 Effeithlonrwydd ........ 11

 3.3 Effeithiolrwydd ........ 16

4. Casgliadau ynglŷn â'r gwerth am arian a sicrhawyd ........ 24

5. Argymhellion ........ 25

Atodiad 1: Cyfweliadau a gynhaliwyd ........ 29

Atodiad 2: Pwrpasau Llywodraeth Cymru wrth roi arian craidd i CYD Cymru 2008-11 ........ 30

Atodiad 3: Pwrpasau Llywodraeth Cymru wrth roi grant arian craidd i CYD Cymru 2011-13 36

Atodiad 4: Crynodeb CYD Cymru o'r hyn a gyflawnwyd yn 2011/12 ........ 38

Atodiad 5: Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yr Alban a Locality: gweithgareddau ac ystyriaethau ........ 41

***Figure 1. Cyfansoddiad incwm CYD Cymru*** ........ 9

***Figure 2. Gwargedau a gynhyrchwyd gan CYD Cymru 2008 - 2012*** ........ 10

***Figure 3. Cymhareb arian craidd Llywodraeth Cymru – gwarged a gynhyrchwyd*** ........ 10

***Figure 4. Ymyriadau cymorth i CYD Cymru a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd 2008 - 2012*** ........ 13

***Figure 5. Nifer gymharol aelodau'r DU o'u cymharu â'r boblogaeth*** ........ 14

***Figure 6. Cyrhaeddiad CYD Cymru o ran nifer a natur y sefydliadau.*** ........ 15

# Crynodeb Gweithredol

Nod y comisiwn sy'n sail i'r adroddiad hwn yw cynnal Adolygiad Gwerth am Arian o'r trefniadau ariannu craidd ar gyfer Social Firms Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru) a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru. Mae gofyn i'r adolygiad gyfrannu at y rhesymwaith ar gyfer unrhyw drefniadau ariannu yn y dyfodol ar ôl 2012/13, drwy ddarparu'r dystiolaeth a fydd yn gefn i'r penderfyniadau.

Ar gais Llywodraeth Cymru, aethpwyd at yr adolygiad fesul dau gam, gan adolygu'r gwerth am arian a gafwyd yn sgil cymorth Llywodraeth Cymru i Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru yn yr adroddiad cyntaf, a pharatoi adroddiadau diweddarach wedyn ar wahân yn adolygu Social Firms Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. Adolygu'r gwerth am arian a gafwyd yn sgil cymorth Llywodraeth Cymru i Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru y bydd yr adroddiad hwn.

Mae CM International wedi gweithio'n glos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol yr adolygiad gan ddefnyddio cymaint ag y bo modd o'r profiad a'r wybodaeth a oedd ar gael eisoes. At hynny, mae CM International wedi defnyddio'r adnoddau, y deunyddiau ymchwil a'r data sydd ar gael i'r eithaf ac wedi cynnal cyfweliadau manwl gyda 4 o aelodau Bwrdd CYD Cymru, 8 o gyrff Rhanddeiliaid a 3 o swyddogion Llywodraeth Cymru.

Er mwyn asesu'r gwerth am arian a gafwyd, defnyddiwyd dull strwythuredig sy'n ymgorffori cysyniadau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd er mwyn llunio casgliad systematig ac ystyrlon.

***Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd a'r dadansoddiad a wnaethpwyd, ein casgliad yw bod Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, gan mwyaf, wedi darparu'r gwerth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol yn sgîl ei chymorth ariannol a'r mathau eraill o gymorth a roddwyd yn ystod y cyfnod 2010 – 2012.***

Byddem yn tynnu sylw at y ffaith nad ydym wedi cynnal archwiliad ariannol o'r gymdeithas nac ychwaith wedi cynnal unrhyw brofion cyfrifyddu.

Dyma'n gryno'r rhesymeg sy'n sail i'r casgliad hwn:

1. Mae ymyriad Llywodraeth Cymru yn unol â'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn y llythyrau Dyfarnu Grantiau ar gyfer y cyfnod hwn, h.y. cyfanswm o oddeutu £665,000 (£664,289) hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2011/12 (gyda £172,713 arall wedi'i gyllidebu ar gyfer 2012/12).
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro'n rheolaidd sut mae'r gwariant yn cymharu â'r gyllideb drwy gydol y cyfnod ers Dyfarnu'r Grant. Serch hynny, mae sicrhau trefniadau cyson ar gyfer monitro canlyniadau ac adrodd yn rheolaidd yn eu cylch yn her o hyd ym mherthynas CYD Cymru â Llywodraeth Cymru.
3. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu bod cryn dipyn wedi'i gyflawni a chryn gynnydd wedi bod yn y rhan fwyaf o'r prif feysydd gweithgarwch.
4. Nid yw'r wybodaeth fonitro'n gymorth i weld yn glir beth yw'r cyfraniad uniongyrchol at dargedau'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer swyddi a thwf. Ond, mae natur gweithgareddau a llwyddiannau CYD Cymru yn awgrymu y bydd llawer ohonynt yn ategu ac yn atgyfnerthu targedau'r Rhaglen Lywodraethu, er enghraifft, yng nghyswllt meithrin diwylliant entrepreneuraidd, adfywio canol trefi, gwella sgiliau ar

gyfer cyflogaeth a goresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth, creu economi gynaliadwy sy'n rhad ar garbon neu hyrwyddo'r dull buddion cymunedol ar lawr gwlad drwy weithio'n uniongyrchol gyda mentrau cymdeithasol a chomisiynwyr y sector cyhoeddus.

5. Mae'r arian craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn hwyluso cysylltiad cyson rhwng gwead cyfoethog a rhwydwaith sefydledig o hyrwyddwyr adfywio economaidd yn y gymuned. Mae'r arian craidd yn cynnig cydlyniant mewnol i'r gymuned fudd ar sail egwyddorion Ymddiriedolaethau Datblygu, gan gynnwys yr agenda trosglwyddo asedau yng Nghymru ac mae'n galluogi pobl i fanteisio ar brofiad ei gilydd o fewn y rhwydwaith. Mae'r arian craidd hefyd wedi bod yn gatalydd i gyflwyno syniadau newydd i'r rhwydwaith ac i ysgogi datblygu dulliau a gweithgareddau newydd.

6. Mae gweithgareddau Ymddiriedolaethau Datblygu wedi'u fframio mewn cyd-destun adfywio economaidd cymunedol lle mae llawer o Ymddiriedolaethau Datblygu wedi bodoli ers blynyddoedd lawer a lle mae ganddynt hanes amlwg o weithredu'n gynaliadwy ac o ddatblygu mentrau. Felly, mae gweithgareddau Ymddiriedolaethau Datblygu wedi'u strwythuro ar sail craidd fentrus ac, yn hynny o beth, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at yr agenda fenter yng Nghymru.

7. Mae CYD Cymru wedi sicrhau sedd wrth y bwrdd mewn meysydd polisi allweddol ar lefel genedlaethol a lleol ac wedi dod o hyd i ffordd effeithiol o ganolbwyntio gweithgareddau i gryfhau ymwybyddiaeth mewn ffora polisi a grwpiau targed allweddol. Mae newidiadau ym maes polisi trosglwyddo asedau, ynghyd â diffyg eglurder ynglŷn â pha sefydliadau sy'n arwain pa agenda bolisi a hynny'n fwyaf nodedig rhwng CYD Cymru a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, ond hefyd rhyngddynt â Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi herio'r llwyddiant hwn yn y misoedd diwethaf.

8. Mae presenoldeb CYD Cymru yn gryfach ac yn haws ei gynnal yn y de nag y mae yn y gogledd, lle mae darpariaeth effeithiol yn dibynnu mwy ar yr aelodau eu hunain.

9. Mae CYD Cymru yn cyflawni holl sbectrwm y swyddogaethau y byddai sefydliad seilwaith mentrau cymdeithasol fel rheol yn eu darparu. Mae hynny'n amrywio o gynnig cymorth i fod yn llais a hyrwyddo cysylltiadau strategol. Mae wedi cyflawni'r swyddogaethau hyn drwy fod yn effro i gyfleoedd newydd ac ysgogi trafodaethau yn eu cylch.

10. Mae ehangder y gweithgareddau hyn, ynghyd â'r duedd bresennol, sef bod y sector cymorth i fentrau cymdeithasol yn cyfuno, wedi herio gallu CYD Cymru i gynnal proffil clir. Serch hynny, mae wedi llwyddo i'w hailgyfeirio'i hun yn strategol ac mae'r canlyniadau cyntaf i'w gweld yn y meysydd gweithgarwch newydd sy'n datblygu a chynnydd sylweddol yn yr incwm a gynhyrchir. Mae angen iddi gamu ymlaen â hyn yn awr drwy gyfleu arlwy diwygiedig clir i ddangos ei gwerth i'r adran yn Llywodraeth Cymru sy'n ei noddi yn ogystal ag i'w phrif bartneriaid.

11. Bydd datblygu cynllun gwaith mwy pendant a chasglu tystiolaeth briodol am y cysylltiad rhwng gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau CYD Cymru, a hynny'n benodol yng nghyswllt canlyniadau datblygu economaidd, yn arf pwysig. Bydd angen cofio bod y canlyniadau a gyflawnir gan CYD Cymru yn mynd ymhell y tu hwnt i agenda yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'u bod yn rhychwantu sawl un o adrannau ac agendâu polisi Llywodraeth Cymru.

12. Un o'i phrif amcanion oedd cynyddu'r incwm y mae hi ei hun yn ei chynhyrchu er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar arian Llywodraeth Cymru, ac fe gynhwyswyd hyn yn y targedau y cytunwyd arnynt ar ôl Adolygiad 2011. Mae cyfrifon rheoli CYD Cymru yn dangos bod y duedd flaenorol i ddibynnu ar arian craidd wedi'i gwrthdroi. Arian craidd oedd 67% o

incwm CYD Cymru yn 2011/12 ac mae'r gyllideb ar gyfer 2012/13 yn awgrymu mai dim ond 34% o gyfanswm incwm CYD Cymru fydd yr arian craidd.

Fel rhan o gwmpas ein gwaith, yn ôl ein cytundeb â Llywodraeth Cymru, gofynnwyd inni adolygu i ba raddau yr oedd y sefydliadau a oedd yn cael cymorth yn cydweddu â pholisïau ac amcanion strategol Cymru at y dyfodol. Lle'r oedd hynny'n briodol, gofynnwyd inni hefyd gynnig argymhellion ynglŷn â rhagor o gymorth gan Lywodraeth Cymru i'r sefydliadau dan sylw.

***Ar sail ein gwaith, ein barn ni yw bod nodau ac amcanion penodol Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, fel y'u lluniwyd, yn dal yn berthnasol ac yn briodol gan mwyaf. Rydym yn argymell:***

1. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu arian craidd ar gyfer CYD Cymru ond y dylai'r arian dapro dros gyfnod o 2 flynedd.**

   Er bod cyfran flynyddol yr incwm a gaiff CYD Cymru drwy arian craidd Llywodraeth Cymru, o'i chymharu â thrwy ffynonellau ariannu eraill, wedi newid yn ddiweddar, yr awgrym ar hyn o bryd yw, ar lefel yr ariannu craidd presennol, mai tua 1/3 o holl arian CYD Cymru yw cyfraniad y Llywodraeth. Mae hyn yn awgrymu na all y sefydliad ganolbwyntio'n llwyr ar wireddu targedau Perfformiad Llywodraeth Cymru y cytunwyd yn eu cylch yn unig. Mae angen i'r fframwaith perfformio y cytunir arno rhwng Llywodraeth Cymru a CYD Cymru adlewyrchu'r sefyllfa hon.

   Hefyd, nodwn fod y cymorth y bydd CYD Cymru yn ei roi i Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes, i egin Ymddiriedolaethau ac i brosiectau eraill yn gymorth ymatebol gan mwyaf yn hytrach nag yn gymorth rhagweithiol a'i fod yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau a wneir ar lefel sefydliadau'r buddiolwyr eu hunain. Felly, nid oes modd rhagweld taflwybr pob ymyriad nac asesu perfformiad CYD Cymru ar sail y canlyniadau penodol hyn.

   Felly, dylid adolygu fframwaith perfformio CYD Cymru eto er mwyn rhoi sylw, ymhlith pethau eraill, i: ystod y meysydd polisi y mae gweithgareddau ymddiriedolaethau datblygu, ac felly waith CYD Cymru yn effeithio arnynt; cymhlethdod y llwybrau y gall gweithgareddau CYD Cymru eu dilyn o bosibl er mwyn cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau, ac yn anad dim, sylweddoli bod angen fframio perfformiad CYD Cymru mewn naratif ehangach sy'n golygu bod modd adolygu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau meintiol yn eu cyd-destun strategol a gweithredol ehangach. Yna, dylai CYD Cymru allu cyflawni rhaglen waith eglurach a fydd yn sicrhau gwell effeithlonrwydd a thryloywder o ran penderfyniadau rheoli ynglŷn â dyrannu adnoddau (amser, arbenigedd ac arian). Dylid manteisio ar y cyfle hefyd i ddangos y cysylltiad yn fwy amlwg rhwng gweithgareddau a chyflawniadau CYD Cymru a thargedau ac amcanion polisïau gwahanol bortffolios, fel y'u rhestrir yn y Rhaglen Lywodraethu. Y tu hwnt i'r cysylltiad ag amcanion a thargedau'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, mae cysylltiad hefyd rhwng gweithgareddau CYD Cymru ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn meysydd polisi eraill, megis, er enghraifft, mynd i'r afael â thlodi ac adfywio, diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn sgîl adolygiad Simpson, fel y'i hadlewyrchir yn ymrwymiadau Cefnogi Pobl, a'r canolbwyntio ar gyflwyno camau effeithlonrwydd ynni ym mhortffolio'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Rydym yn argymell nifer o gamau er mwyn cyflawni hyn:

2. **Dylai CYD Cymru gasglu data a thystiolaeth yn rheolaidd am ddatblygiad a pherfformiad yng nghyswllt cyflawniad a chyfraniad cyffredinol rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, gan ddefnyddio arolwg blynyddol tebyg i hwnnw a ddefnyddir gan Locality[1] yn Lloegr.** Bydd hyn yn golygu bod modd monitro a mynegi perfformiad cyffredinol y sector gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, yr arian y llwyddir i'w ddenu ar gyfer gweithgareddau Ymddiriedolaethau Datblygu (gan gynnwys o ffynonellau menter a darparu gwasanaethau), gwerth a maint yr asedau sydd o dan reolaeth (gwerthoedd cyfalaf a chynhyrchu refeniw), cynhyrchu incwm sy'n gysylltiedig â mentrau, staff a gyflogir, gwirfoddolwyr a ddenwyd, partneriaethau sydd ar waith ac ati.

3. **Ochr yn ochr â'i hymyriadau a'i hymgysylltu beunyddiol, dylai CYD Cymru sefydlu proses systematig a myfyriol a fydd yn ei galluogi i adeiladu corff o dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau**. Bydd y sylfaen dystiolaeth, nid yn unig yn gymorth i CYD Cymru a'i phartneriaid gryfhau ymwybyddiaeth o'i dylanwad sylfaenol, bydd hefyd yn gymorth iddi greu cof sefydliadol cryfach byth a fydd yn cyfoethogi'r ymwneud a'r dysgu rhwng cymheiriaid gan sicrhau parhad ac olyniaeth ymhlith gweithwyr ac aelodau allweddol.

4. **Dylid cydnabod mewnbynnau a chyfraniadau CYD Cymru i bolisïau a strategaethau a chofnodi hynny ar draws ystod meysydd polisi a diddordebau Llywodraeth Cymru**. Gan gydnabod y bydd yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn awyddus i ganolbwyntio ar fewnbynnau sy'n gysylltiedig â menter, dylid rhoi clod pendant i CYD Cymru am ddatblygiadau polisi a thrafodaethau sy'n digwydd ar draws ystod ehangach o adrannau.

5. **Dylai'r targedau ariannu craidd y bydd Llywodraeth Cymru a CYD Cymru yn cytuno arnynt bwysleisio, yn benodol, y cymorth y mae CYD Cymru yn ei roi i feithrin Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a chreu gweithgareddau incwm/menter newydd ar gyfer Ymddiriedolaethau Datblygu a chyfryngau adfywio cymunedol priodol eraill ledled Cymru.** Felly, yn hytrach na chanolbwyntio ar gefnogi gweithgareddau sefydledig y rhwydwaith, dylid troi at gefnogi gweithgareddau menter ac arloesi newydd.

   Er ein bod yn credu mai parhau â'r ariannu craidd yw'r ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen o hyd ar hyn o bryd, credwn hefyd y dylid gosod targedau a fydd yn caniatáu i Fwrdd CYD Cymru gynllunio'n fwy effeithiol ac yn fwy realistig ar gyfer y dyfodol nes daw'r adeg pan fydd yr arian craidd naill ai'n swm sylweddol lai neu fod yr arian craidd yn cael ei drosglwyddo i bwrs arian prosiect sydd â thargedau a chanlyniadau cyfyng a phenodol ynghlwm ag ef.

6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfnod ariannu nesaf, ddatblygu gyda CYD Cymru raglen y cytunir arni lle y bydd yr arian craidd ar gyfer gweithgareddau CYD Cymru yn tapro ac yn cael ei ddisodli gan drefniadau ariannu mwy penodol a chyfyng sy'n seiliedig ar brosiect. Ac ystyried y gwerth am arian a sicrheir ar hyn o bryd, a bod dulliau CYD Cymru o weithio wedi'u seilio'n gadarn ar ei haelodaeth a'r ffaith bod y cyfuniad penodol o wasanaethau sefydliad seilwaith yn dibynnu'n llwyr ar rôl a safle CYD Cymru yn y rhwydwaith ymarferwyr, ni chredwn y gellir dadlau o blaid caffael gwasanaethau er mwyn datblygu a rhoi cymorth i ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru. Bydd cynaliadwyedd CYD Cymru yn hanfodol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau o'r fath fel rhan o'i chenhadaeth a'i hamcanion craidd.

[1] Cymdeithas Ymddiriedolaeth Datblygu'r Deyrnas Unedig wedi'i hailenwi a'i hailfrandio

Er mwyn i CYD Cymru, mewn partneriaeth â'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, allu mireinio a chryfhau'r trefniadau adrodd a monitro a chynhyrchu corff o dystiolaeth ynglŷn â'r gwahanol linynnau o weithgarwch a chynlluniau strategol, (fel y'u nodir yn argymhellion 2 a 3 uchod), dylid darparu blwyddyn arall o arian craidd hyd at fis Mawrth 2014.

Serch hynny, yn y flwyddyn wedi hynny, sef at fis Mawrth 2015, ni ddylid ond darparu 50% o'r arian craidd a ddarperir ar hyn o bryd, er mwyn i'r sefydliad a Llywodraeth Cymru allu newid eu rhaglenni gwaith a chanolbwyntio ar drefniadau ariannu ar gyfer prosiectau penodol.

Fe all prosiectau a ariennir fel hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i feysydd penodol megis arferion trosglwyddo asedau; gwaith datblygu strategol i ganfod ac asesu potensial menter gwahanol fathau o asedau; darparu cymorth i fentrau ac elfennau cynhyrchu incwm mewn Ymddiriedolaethau Datblygu; denu grwpiau targed yng nghyd-destun trosglwyddo asedau; datblygu arfau i roi polisïau ar waith ar gyfer y llywodraeth a'i hasiantaethau (e.e. Awdurdodau Lleol, y Comisiwn Coedwigaeth).

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Nodau ac amcanion

Nod y comisiwn sy’n sail i’r adroddiad hwn yw cynnal Adolygiad Gwerth am Arian o’r trefniadau ariannu craidd ar gyfer Social Firms Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru) a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru.

Mae gofyn i’r adolygiad gyfrannu at y rhesymwaith ar gyfer unrhyw drefniadau ariannu yn y dyfodol ar ôl 2012/13, drwy ddarparu’r dystiolaeth a fydd yn gefn i’r penderfyniadau.

Amcanion penodedig yr adolygiad[2] yw:

- Gwerthuso perfformiad y sefydliadau a gynorthwyir, a hynny mewn ffordd drwyadl a gwrthrychol ar sail diffiniad priodol o Werth am Arian;
- Dadansoddi'n feirniadol berfformiad y sefydliadau a gynorthwyir gan gymharu'r hyn a gyflawnwyd ganddynt â'r nodau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru;
- Dadansoddi mewn ffordd fesuradwy y sefydliadau a gynorthwyir er mwyn gweld faint o ychwanegoldeb y llwyddwyd i'w greu yn sgîl eu trefniadau ariannu craidd.
- Adolygu sut mae’r sefydliadau a gynorthwyir yn cydweddu ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol o ran polisïau a strategaethau.

Ar gais Llywodraeth Cymru, rydym wedi mynd ati i gynnal yr adolygiad fesul dau gam; yn gyntaf, ar gyfer adroddiad i’w gyflwyno erbyn 31 Awst 31, adolygwyd y gwerth am arian a gafwyd yn sgîl cymorth Llywodraeth Cymru i Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru; ac, yn ail, adolygwyd gwerth am arian Social Firms Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, y cyntaf i’w gwblhau erbyn 30 Medi 2012 a’r ail erbyn 12 Hydref 2012[3].

At hynny, er nad yw manyleb y prosiect yn gofyn yn benodol am hyn, tybiwyd, a chadarnhawyd mewn cyfarfod Cychwyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, fod y Llywodraeth yn dymuno cael argymhellion ynglŷn â rhoi cymorth ariannol i’r sefydliadau dan sylw yn y dyfodol.

***Mae’r adroddiad hwn yn cynnig y dadansoddiad, y casgliadau a’r argymhellion ar gyfer Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru yn unig. Gan fod adolygiad Gwerth am Arian blaenorol o CYD Cymru wedi’i gynnal ddiwedd 2010, mae’r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ddwy flwyddyn ariannol 2010/11 a 2011/12 gan gyfeirio at ddatblygiadau yn y flwyddyn ariannol gyfredol fel sy’n briodol.***

---

[2] Manyleb ar gyfer Adolygiad Gwerth am Arian o Drefniadau Ariannu Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Datblygu Mentrau Cymdeithasol, Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2012

[3] Oherwydd afiechyd Cyfarwyddwr CYD Cymru yn ystod prif ran yr adolygiad ac iddo ddychwelyd tua diwedd mis Medi, dechrau mis Hydref 2012.

## 1.2 Y gwaith a wnaethpwyd

Fel y nodwyd yn y fanyleb ar gyfer y comisiwn hwn, mae CM International wedi gweithio'n glos gyda'r Cleient drwy gydol yr adolygiad gan ddefnyddio cymaint o'r profiad a'r wybodaeth a oedd ar gael eisoes ag yr oedd modd. At hynny, er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion, mae CM International wedi defnyddio'r adnoddau, y deunyddiau ymchwil a'r data sydd ar gael i'r eithaf.

Wrth fynd ati i gwblhau'r comisiwn hwn, mae CM International wedi defnyddio methodoleg pecyn gwaith tri cham:

1. ***Cwmpasu, adolygu dogfennau a datblygu methodoleg***

Roedd hyn yn cynnwys casglu ac adolygu'r holl ddogfennau a chynnal nifer fach o gyfweliadau 'cwmpasu' gyda rheolwyr prosiectau a swyddogion Llywodraeth Cymru. Rhai o'r dogfennau a adolygwyd oedd adroddiadau monitro CYD Cymru i Lywodraeth Cymru; Cofnodion y Bwrdd; cyhoeddiadau ac adroddiadau a gynhyrchwyd gan CYD Cymru.

Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, paratowyd rhestrau cyfweld, templedi dadansoddi ac amserlenni cyfweliadau strwythuredig, eu profi a'u rhoi ar waith gyda sefydliadau targed; aelodau'r bwrdd a rhanddeiliaid

2. ***Ymchwil gwerth am arian***

Adolygwyd data ac adroddiadau monitro CYD Cymru a phapurau'r Bwrdd a'u dadansoddi ar sail amcanion y sefydliad, amcanion yr ariannu a'r gweithgareddau.

Cyfwelwyd â 4 aelod o Fwrdd CYD Cymru yn ystod mis Awst a mis Medi 2012.

At hynny, cyfwelwyd â chynrychiolwyr 8 o gyrff rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Social Firms Cymru a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru. Yn olaf, cyfwelwyd â Phrif Swyddogion dau sefydliad perthnasol tebyg yn Lloegr ac yn yr Alban.

Mae rhestr lawn o'r holl gyfweliadau a gynhaliwyd i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

3. ***Dadansoddi'r gwerth am arian***

Mae'r holl gyfweliadau, y dadansoddiad o'r data a'r adolygiadau o'r dogfennau wedi cael eu dadansoddi eto a'u dehongli wrth lunio casgliadau ynglŷn â'r gwerth am arian.

Yn benodol, er mwyn asesu'r gwerth am arian a gafwyd, defnyddiwyd dull strwythuredig sy'n ymgorffori cysyniadau hyn – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – er mwyn llunio casgliad systematig ac ystyrlon.

## 1.3 Dull

Un o ddaliadau sylfaenol gweinyddiaeth gyhoeddus yw sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau ac effeithiau clir yn sgîl gwariant cyhoeddus. Er mwyn gwirio hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei hymrwymiadau ariannu'n rheolaidd, gan gynnwys, yn y cyd-destun hwn, ei chymorth i gyrff y trydydd sector.

Dyma sut y diffinnir gwerth am arian yng nghanllawiau'r Trysorlys[4]:

> *'the optimum combination of whole life cost and quality (or fitness for purpose) to meet the user's requirement. In other words, getting the best possible outcome from any given level of input'.*

Mae angen rhoi'r diffiniad hwn ar waith a'i ddehongli gan sylweddoli bod gwerth am arian yn codi o ddangosyddion meintiol a hefyd o enillion ansoddol o ran polisïau.

Y tu hwnt i ganlyniadau eu swyddogaethau penodol, felly, mae'r tri sefydliad a adolygir yn cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol o ran ei pholisïau a'i strategaethau.

Darparwyd arian craidd ar gyfer y tri sefydliad sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol yn y lle cyntaf, sy'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i gydweithio â phartneriaid er mwyn:

> *'creu amgylchedd sy'n annog mentrau cymdeithasol newydd a sefydlu cefnogaeth integredig fydd yn help i greu mentrau cymdeithasol ffyniannus yng Nghymru'.*[5]Yn fwy diweddar, mae amcanion penodol yr

Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth sy'n deillio o'r Rhaglen Lywodraethu wedi disodli hyn. Felly, un o'r prif ddangosyddion ar gyfer gwerth am arian yw i ba raddau y mae'r tri sefydliad yn cyfrannu at yr ymrwymiad hwnnw a wnaeth Lywodraeth Cymru.

Mewn cyd-destun lle bydd nifer o sefydliadau'n cynnig cymorth i fentrau a mudiadau cymdeithasol sydd yn awyddus i ddatblygu gweithgareddau mentrau cymdeithasol, mae'r cymorth i fentrau o'r fath yng Nghymru weithiau'n cael ei weld yn 'ofod llawn'. Rhai o'r sefydliadau sy'n llenwi'r 'gofod' hwn yw Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, yn ogystal â'r tri sefydliad sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn. Mae pwyslais pob sefydliad a'u 'cynulleidfa darged' yn wahanol er bod pob un ohonynt yn ceisio meithrin cysylltiad â Llywodraeth Cymru ac ag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill ym maes cyffredinol mentrau cymdeithasol a gwaith y trydydd sector.

Felly, bydd angen asesu gwerth am arian o ran cyfraniad cyffredinol y sefydliadau hyn at gyflawni nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy lwyddo i gysoni'r cymorth a roddant i ddatblygu mentrau a busnesau yn llwyddiannus, cyfnewid yr arferion gorau a chryfhau ymwybyddiaeth â'u swyddogaeth unigryw awdurdodol wrth iddynt gefnogi cyd-ddysgu rhwng aelodau unigol, goleuo polisïau perthnasol Llywodraeth Cymru a dylanwadu arnynt.

---

[4] Improving financial relationships with the third sector: Guidance to funders and purchasers, Trysorlys EM (Mai 2006)

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru 2009

## 2. Y cyd-destun a'r cefndir

Cymdeithas sy'n cael ei llywio gan ei haelodau yw CYD Cymru, ac mae'r aelodau hynny'n dod o Ymddiriedolaethau Datblygu ym mhob cwr o Gymru yn ogystal ag o nifer o egin Ymddiriedolaethau Datblygu ac aelodau cysylltiol sydd â diddordeb cyffredinol yng ngweithgareddau'r gymdeithas. Mae'n defnyddio dull cymorth gan gymheiriaid er mwyn meithrin a chyfnewid gwybodaeth a phrofiad, a hynny'n gysylltiedig â maes cyffredinol cryfhau'r dulliau o ddatblygu asedau a mentrau cymunedol er mwyn adfywio cymunedau Cymru.

Yn wahanol i'r modelau mentrau cymdeithasol sy'n cael eu hadlewyrchu mewn strwythur cyfreithiol penodol (e.e. mentrau cydweithredol) neu grŵp targed penodol (e.e. Cwmni Cymdeithasol); hanfod dull yr Ymddiriedolaeth Datblygu yw set o egwyddorion sy'n sail i allu cymunedau i benderfynu drostynt eu hunain a sicrhau bod asedau'n bwrw gwreiddiau mewn cymunedau. Yng ngeiriau cadeirydd CYD Cymru *'Mae menter fasnachol yn gwneud cyfraniad allweddol at Ymddiriedolaeth Datblygu ond nid oes a wnelo â menter yn unig – yr etholaeth sy'n bwysig a'r nod o feithrin cymunedau cydnerth, cynhwysol.'*O'r tri chorff, y trefniadau ariannu craidd rhwng CYD Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n mynd yn ôl bellaf - fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd yn Llywodraeth Cymru - *'mae'n drefniant hanesyddol'.* Felly, mae amcanion CYD Cymru wedi esblygu dros gyfnod, wrth i'r gymdeithas, corff yr aelodau ac amgylchedd CYD ei hun ddatblygu, a hefyd wrth i bolisïau Llywodraeth Cymru gael eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Nod cyffredinol y trefniant rhwng CYD Cymru a Llywodraeth Cymru yw hybu'r gymuned i ymwneud â byd menter ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am adfywio. Yn fwy penodol, nod y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod yr Ymddiriedolaethau Datblygu sydd eisoes ar waith yng Nghymru'n datblygu rhagor, cryfhau ymwybyddiaeth ohonynt a sbarduno creu rhai newydd.

Mae CYD Cymru wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad am rôl a dulliau gweithredu model yr Ymddiriedolaethau Datblygu ar gael ar raddfa ehangach yng Nghymru. Dyma'r amcanion craidd a restrwyd yn llythyr Dyfarnu Grantiau diweddaraf Llywodraeth Cymru[6]:

1. *Cryfhau'r ymwybyddiaeth o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru drwy sicrhau sylw ar y cyfryngau*
2. *Cefnogi datblygu tair ymddiriedolaeth datblygu newydd*
3. *Darparu dau weithdy i helpu i ddatblygu ymddiriedolaethau datblygu ac adrodd am well dealltwriaeth o ymddiriedolaethau datblygu yn y sector cyhoeddus*
4. *Bydd CYD Cymru yn defnyddio'i brofiad a'i arbenigedd ym maes ymddiriedolaethau datblygu i ychwanegu gwerth at waith cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd yn gwneud hynny drwy (a) cymryd rhan yn y broses o ddarparu cyngor am bolisïau ar lefel strategol a chyfrannu at hynny a (b), lle*

[6] Llythyr Dyfarnu Arian Grant – Atodlen 1 – Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru) Arian Craidd 2012-13; Canlyniadau a Dangosyddion Perfformiad

*bydd yn teimlo bod hynny'n briodol, cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi sy'n berthnasol i ymddiriedolaethau datblygu*

5. *Bydd CYD Cymru yn denu arian ychwanegol er mwyn gwneud gwaith i hyrwyddo a datblygu'r ymddiriedolaethau datblygu sydd ar waith eisoes yng Nghymru*

O dan bob un o'r prif amcanion hyn, cytunodd Llywodraeth Cymru ymhellach â CYD Cymru ar nifer o is-amcanion y bwriedid iddynt fod yn amcanion gweithredol[7].

Cyflwynwyd yr amcanion hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 ac maent yn cyfuno'r rhestr flaenorol o Dargedau Allweddol, Nodau, Camau Gweithredu a Dangosyddion Perfformiad a oedd wedi cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod 2008 - 2011. Mae hyn yn unol ag argymhellion yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2011

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gefnogi arian craidd ar gyfer CYD Cymru gan roi cyfanswm o £700,000 iddi dros y tair blynedd lawn gyntaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2008/09 | £165,000 |
| 2009/10 | £167,658 |
| 2010/11 | £172,713 |

Rhoddwyd grantiau wedyn ar gyfer y blynyddoedd ariannol diweddaraf a chyfredol hyd at fis Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| 2011/12 | £172,713 |
| 2012/13 | £172,713 |

Yng nghyd-destun ehangach Cymunedau yn Gyntaf a'r pwyslais cynyddol ar gysylltu datblygu cymunedol â chynlluniau menter, ynghyd â'r ffaith bod Mentrau Cymdeithasol yn cael eu cydnabod fwyfwy'n rym sy'n cyfrannu at ddatblygu economaidd, symudwyd y trefniant ariannu i'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn 2011.

Mae'n bwysig nodi bod amcanion a dull gweithredu a chyflawni CYD Cymru yn rhychwantu gwahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru. Mae model yr Ymddiriedolaeth Datblygu yn seiliedig ar ddefnyddio dulliau menter ar gyfer adfywio economi cymunedau, ond mae'n mabwysiadu safbwynt llawer ehangach a thymor hir sy'n canolbwyntio ar feithrin capasiti. Mae swyddogaeth CYD Cymru felly'n croesi ffiniau nifer o ganlyniadau a gyflawnir mewn cymunedau, ar gyfer y cymunedau hynny ac ar y cyd â hwy gan Ymddiriedolaethau Datblygu a sefydliadau sy'n arddel yr un athroniaeth.

At hynny, mae llwyddiant model CYD Cymru yn dibynnu ar y cyrff unigol sy'n aelodau ohoni, ar ddefnyddio cymorth gan gymheiriaid a chyd-ddysgu, a manteisio ar eu hannibyniaeth drefniadaethol er mwyn iddynt gyfrannu'n frwd at lunio gweithgareddau CYD Cymru. Felly, swyddogaeth graidd CYD Cymru yw bod yn arbenigwr, yn alluogwr ac yn lluoswr ar gyfer gweithgareddau, rhyngweithio a chyd-ddysgu ymhlith Ymddiriedolaethau Datblygu. Mae'n canolbwyntio ar helpu gweithgareddau newydd a rhai sy'n egino i ddatblygu a chynyddu eu gweithgareddau, ar ddarparu arbenigedd allweddol ac ar greu cysylltiad byw â'r ystod o agendâu polisi perthnasol.

---

[7] Cynhwysir yr 'Atodlen Pwrpasau' manwl yn Atodiad 2.

Mae rôl o'r fath, fel arbenigwr, galluogwr a lluoswr, yn hytrach nag fel darparwr cymorth uniongyrchol, yn anochel yn creu anawsterau o ran mesur effaith a phriodoli canlyniadau. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn benodol yn yr amcanion a'r targedau perfformiad y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r rheini'n pwysleisio rôl CYD Cymru yn hyrwyddo model yr Ymddiriedolaeth Datblygu, yn hytrach nag yn cyflawni canlyniadau penodol sy'n berthnasol i'r gwahanol bortffolios polisi.

# 3. Adolygu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd CYD

Er mwyn egluro’r termau a ddefnyddir yn yr adolygiad hwn:

- Wrth sôn am **economi,** byddwn yn holi am union gost gweithgareddau, gan gynnwys, faint mae’r ymyriad wedi’i gostio, sut y penderfynwyd ynglŷn â hyn, a yw’r arian wedi’i ddefnyddio ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd a, pha gronfeydd ychwanegol y llwyddwyd i’w denu.
- Wrth sôn am **effeithlonrwydd,** byddwn yn ystyried a gyflawnwyd gweithgareddau’n unol â’r disgwyliadau, gan gynnwys a gyflawnwyd gweithgareddau a noddwyd yn unol â’r cynllun, pa weithgareddau ychwanegol a gyflawnwyd, a oedd cost eu cyflawni’n unol â’r hyn a ddisgwylid a, sut mae effeithlonrwydd wedi cael ei fesur a’i fonitro.
- Mae **effeithiolrwydd** yn canolbwyntio’r sylw ar ganlyniadau megis, a yw’r gweithgareddau a noddwyd wedi sicrhau’r canlyniadau a ddisgwylid, pa ganlyniadau ychwanegol sydd wedi’u cyflawni, os o gwbl, a sut y manteisiwyd i’r eithaf ar effeithiolrwydd.

## 3.1 Economi

Wrth sôn am economi, byddwn yn holi am union gost gweithgareddau, gan gynnwys, faint mae’r ymyriad wedi’i gostio, sut y penderfynwyd ynglŷn â hyn, a yw’r arian wedi’i ddefnyddio ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd a, pha gronfeydd ychwanegol y llwyddwyd i’w denu.

Mae CM International; wedi adolygu’r cyfrifon rheoli a gynhyrchwyd gan archwilydd CYD Cymru. Fodd bynnag, nid yw CM International wedi gwneud gwaith archwilio na phrofion cyfrifyddu ar sail yr wybodaeth hon ac nid yw wedi trafod yr wybodaeth ariannol gydag unrhyw un o staff neu swyddogion CYD Cymru.

O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae cost ei hymyriad yn unol â’r hyn a gyllidebwyd, h.y. rhwng £165,000 a £175,000 ar gyfer pob blwyddyn ariannol er 2008/09 gan ragweld swm tebyg yn 2012/2013. A dweud y gwir, mae’r cyfrifon yn cofnodi mymryn o danwario mewn dwy o’r pedair blwyddyn ariannol. Felly, cyfanswm y gwariant dan y grant yw ychydig o dan £665,000 dros gyfnod cytundebau’r Dyfarniadau diweddaraf.

Rydym wedi cadarnhau mai dyma’r symiau a gynhwyswyd yng nghytundeb y Dyfarniad.

Mae’n amlwg hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi monitro’n rheolaidd sut mae’r gwariant yn cymharu â’r gyllideb drwy gydol y cyfnod sydd dan sylw.

Drwyddi draw, wrth ddadansoddi’r wybodaeth fonitro, ynghyd â chofnodion cyfarfod y Bwrdd, awgrymir bod CYD Cymru wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar ddefnyddio’r arian craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y nodau a’r amcanion y cytunwyd arnynt.

Mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd yn awgrymu hefyd bod rheolaeth ariannol CYD Cymru wedi bod yn gyson gryf. Yn ôl y cofnodion hyn, cymeradwywyd adroddiadau cyllid chwarterol yn rheolaidd heb i neb holi yn eu cylch.

Mae'r rhan fwyaf o arian craidd Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogau, gweinyddu a chostau swyddfa a'r prif eithriadau yw'r costau uniongyrchol sy'n codi yn sgîl cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo megis DVDs a chynnal digwyddiadau megis seminarau a chynhadledd CYD Cymru. Credwn fod hyn yn gyson â'r rhesymwaith ariannu craidd generig, sef, cefnogi gweithredu sylfaenol sefydliad er mwyn ei alluogi i adeiladu ei asedau sefydliadol ac ychwanegu atynt er mwyn cyflawni ei amcanion. Credwn hefyd fod y treuliau a dalwyd yn gyffredinol fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl heb ddim gwyro oddi wrth ganllawiau na gorwario wedi'i nodi.

Mae'r wybodaeth fonitro sydd ar gael yn sicr yn cadarnhau bod amser staff wedi'i dreulio'n cyflawni'r swyddogaeth gydlynu a galluogi ganolog er mwyn sicrhau bod arbenigedd ym maes mentrau cymunedol a datblygu asedau ar gael i ystod eang o bartïon budd. Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid ac Aelodau CYD Cymru hefyd yn awgrymu bod CYD Cymru wedi bod yn llwyddiannus i ysgogi cyfraniadau sylweddol o wahanol fathau gan ei aelodau (e.e. lleoliadau ar gyfer digwyddiadau, arbenigedd ar gyfer egin Ymddiriedolaethau Datblygu a chyrff eraill sy'n archwilio'r model Ymddiriedolaethau Datblygu, deunyddiau astudiaethau achos).

Mae tystiolaeth ar gael hefyd, yn ogystal â'i bod wedi addasu ei staffio ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n cael arian prosiect, fod DTA Cymru wedi rheoli ei sylfaen staff a'i haddasu'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ymrwymiad ariannu craidd Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn awgrymu bod yr arian craidd wedi caniatáu i CYD Cymru ddenu adnoddau ychwanegol yn barhaus er mwyn galluogi cyflawni ystod ehangach o weithgareddau. Mae'r holl weithgareddau hyn, fodd bynnag, wedi'u hanelu at ddatblygu arlwy gwerth cyffredinol CTD Cymru ar gyfer ei grŵp targed craidd o Ymddiriedolaethau Datblygu presennol, egin Ymddiriedolaethau a chymunedau ledled Cymru sydd â diddordeb mewn archwilio gwahanol agweddau ar fodel yr Ymddiriedolaethau Datblygu.

Yn wir, mae'r warged a gynhyrchwyd yn sgil gweithredu CYD Cymru (gweler y drafodaeth isod) wedi cael ei defnyddio'n briodol i recriwtio Pennaeth Menter gan gydblethu'r swyddogaeth datblygu busnes â gweithrediadau CYD Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr enillion ychwanegol a alluogwyd drwy grant craidd Llywodraeth Cymru wedi cael eu buddsoddi mewn ffordd strategol. Er enghraifft, drwy greu Grŵp Prynu Ynni, mae aelodau CYD Cymru ac eraill eisoes yn gweld eu bod yn arbed costau ac mae'n bosibl y gellid ystyried hyn yn ganlyniad cyntaf i'r swyddogaeth hon.


Mae cynhyrchu incwm wedi'i drafod yn rheolaidd ar lefel y Bwrdd. Mae'n amlwg wedi bod yn ganolbwynt sylw drwy gydol cyfnod cyfarfodydd y Bwrdd a adolygwyd (ers mis Mawrth 2008). Mae tystiolaeth glir o ymdrech ddygn barhaus i ychwanegu at asedau CYD Cymru a chynhyrchu incwm ychwanegol.

Gellir gweld hyn, er enghraifft, yn y trafodaethau cynnar ynglŷn â sicrhau arian parhaus ar gyfer gweithgarwch yr Ysgol Adfywio, er bod sawl cais i sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, serch hynny, wedi bod yn aflwyddiannus. Mae rhagor o dystiolaeth yma ynglŷn â gwaith ar brosiect partneriaeth Cydgyfeirio a ddatblygwyd ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru ond y bwriwyd ymlaen ag ef, yn hwyr yn y broses, gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ei hun. Mae CYD Cymru, fodd bynnag, wedi sicrhau contract cyflawni wedi hynny o dan y prosiect Cydgyfeirio hwn sy'n werth cyfanswm o £56,000 dros gyfnod o ddwy flynedd (2010/11 a 2011/12)

Yn wir, wrth ddadansoddi'r tueddiadau cynhyrchu incwm yn CYD Cymru dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf ac, wrth ystyried y sefyllfa y cyllidebwyd ar ei chyfer ar gyfer 2012/13, gellir gweld bod contract Canolfan Cydweithredol Cymru'n gwrthdroi'r duedd flaenorol pan oedd arian craidd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyfran gynyddol o incwm CYD Cymru. Ar gyfer 2010/11, roedd arian craidd Llywodraeth Cymru'n 94% o gyfanswm incwm CYD Cymru ac felly'n sylweddol uwch nag yr oedd yn 2008/09 (61%) ac yn 2009/10 (74%). Serch hynny, yn 2011/12, 67% o incwm CYD Cymru oedd arian craidd Llywodraeth Cymru ac mae'r gyllideb ar gyfer 2012/13 yn awgrymu mai dim ond 34% o gyfanswm incwm CYD Cymru fydd yr arian craidd hwnnw yn y flwyddyn gyfredol hyd at fis Mawrth 2013.

Dangosir hyn yn y ffigur isod.

***Figure 1.*** ***Cyfansoddiad incwm CYD Cymru***





| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|
| Other | £84,206 | £54,560 | £2,905 | £74,274 | £333,823 |
| Membership | £13,502 | £6,463 | £8,033 | £3,912 | £7,000 |
| WG core funding | £153,400 | £177,362 | £172,714 | £160,813 | £172,713 |

Mae sicrhau arian y Loteri Fawr ar gyfer prosiect RENEW yn llwyddiant pwysig yn y cyswllt hwnnw, oherwydd bydd hynny'n cyfrannu £323,623 at gyllideb incwm CYD Cymru ar gyfer y flwyddyn 2012/13. Er bod hyn wedi'i gyllidebu ar sail adennill costau ac na fydd yn cynhyrchu unrhyw elw i CYD Cymru, mae'n cyfrannu'n sylweddol at amlygrwydd CYD Cymru fel sefydliad a'r Ymddiriedolaethau Datblygu fel model. Mae hefyd yn ymestyn rhwydwaith CYD Cymru i nifer fwy o gymunedau. Er enghraifft, o dan RENEW, bydd CYD Cymru yn denu 200 o grwpiau cymunedol i 'ymuno' â hi o bob cwr o Gymru, ac nid aelodau CYD Cymru eisoes fydd y rhan fwyaf o'r rhain.

Ni fydd gweithgareddau o dan y prosiect hwn o anghenraid yn seiliedig ar fenter ond bydd RENEW yn cynnig cymorth i rai gweithgareddau cymunedol a fydd yn datblygu'n fentrau ac felly, fe gaiff effaith anuniongyrchol bwerus ar sbarduno a sefydlu mentrau. Yn ogystal â hynny, gwelir bod RENEW yn ymateb i anghenion aelodau CYD Cymru i ddatblygu capasiti ac arlwy datblygu cynaliadwy cryfach. Felly, mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan yr arian hwn yn ymateb yn uniongyrchol i amcanion a thargedau'r arian craidd.


Yn olaf, fel y dangosir yn y ffigur isod, mae CYD Cymru wedi cynhyrchu gwarged yn gyson sydd rhwng £8,000 a £27,000 a mwy yn y pedair blynedd ariannol ddiwethaf.

***Figure 2. Gwargedau a gynhyrchwyd gan CYD Cymru 2008 - 2012***




Ac ystyried y warged hon o ran y gymhareb ag arian craidd, yn ystod y flwyddyn ariannol lawn ddiweddaraf, sef 2011/12, roedd y warged yn cyfateb i 17% o'r arian craidd a ddarparwyd, fel y'i dangosir yn y ffigur isod.

***Figure 3. Cymhareb arian craidd Llywodraeth Cymru – gwarged a gynhyrchwyd***



## 3.2 Effeithlonrwydd

Wrth sôn am effeithlonrwydd, byddwn yn ystyried a gyflawnwyd gweithgareddau'n unol â'r disgwyliadau, gan gynnwys a gyflawnwyd gweithgareddau a noddwyd yn unol â'r cynllun, pa weithgareddau ychwanegol a gyflawnwyd, a oedd cost eu cyflawni'n unol â'r hyn a ddisgwylid a, sut mae effeithlonrwydd wedi cael ei fesur a'i fonitro.

Un peth pwysig i'w ddweud yn y fan hon yw nad oes modd mesur pob gweithgarwch nac adrodd yn ei gylch ar ffurf dangosyddion meintiol. Fel y gwnaeth y ddau sefydliad arall a adolygwyd o dan y comisiwn hwn, cytunodd CYD Cymru ar set o amcanion a dangosyddion perfformiad a thargedau cysylltiedig â Llywodraeth Cymru. Rhestrir y rhain yn yr atodlen a oedd yn rhan o lythyrau dyfarnu'r arian craidd - gweler Atodiad 2 a 3. Dyma'r sail ar gyfer yr holl adroddiadau a'r trafodaethau ynglŷn â pherfformiad â Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf hyn, mae rhywfaint o anhawster wedi codi wrth geisio olrhain cynnydd CYD Cymru tuag at gyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt. Mae'n ymddangos, wrth baratoi'r adroddiadau monitro rheolaidd, nad oedd yr wybodaeth a ddarperid ynddynt yn trawsgyfeirio bob tro at y targedau perfformiad a'r gwariant y cytunwyd arnynt. Deallwn fod hyn yn rhywbeth a drafodwyd mewn cyfarfodydd Monitro gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ar lefel y Bwrdd.

Gan ymateb yn rhannol i ganfyddiadau adolygiad 2011, cyflwynwyd set o dargedau perfformiad diwygiedig. Roedd y rhain yn rhesymoli'r fframwaith perfformiad a oedd wedi'i ddefnyddio yn ystod y cyfnod 2008-2011 a oedd yn cynnwys pedair prif nod, 38 o Gamau Gweithredu Allweddol a 45 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Canfu'r adolygiad blaenorol yn 2011 nad oedd rhai o'r targedau/dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u diffinio mor glir ag y gallent fod a bod y ffordd yr oedd rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u drafftio'n ei gwneud yn anodd gweld pa gynnydd a oedd wedi'i wneud yn gyffredinol. Mae hyn yn waeth oherwydd nad yw adroddiadau cynnydd CYD Cymru yn dangos gwybodaeth gronnus am ei pherfformiad'[8].

Mae'r set ddiwygiedig o dargedau perfformiad wedi mynd gryn dipyn o ffordd i gydnabod bod natur model gweithredu CYD Cymru a'i gweithgareddau'n golygu, yn y lle cyntaf, nad oes modd mesur ei llwyddiant yn uniongyrchol drwy ddefnyddio dangosyddion datblygu economaidd confensiynol. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn gweithredu fel galluogwr ac fel adnodd canolog ac mai perthynas anuniongyrchol sydd rhyngddi a llwyddiannau ar lawr gwlad. Er mai Ymddiriedolaethau Datblygu unigol yw aelodau gweithredol CYD Cymru ac mai hwy sy'n sbarduno'i datblygiad strategol, maent yn gwbl annibynnol ar y sefydliad, ac felly, mae'n anodd priodoli unrhyw enillion yn uniongyrchol i CYD Cymru.

Yn ail, rhwng y cyfarfod cychwynnol gyda chorff sydd â diddordeb a chwblhau prosiect trosglwyddo ased yn llwyddiannus neu ffurfio Ymddiriedolaeth Datblygu newydd, fe all fod cryn dipyn o oedi. Felly, mae'n gallu bod yn anodd mesur llwyddiant CYD Cymru drwy fesur nifer yr Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a grewyd neu gyflwyniadau'r prosiectau hynny maes o law.

Fel y nodwyd, mae anhawster monitro gweithgareddau a defnyddio targedau meintiol wedi bod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn cyfarfodydd monitro a thrafodaethau gyda

[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011), Adolygiad o Gymorth Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru. Holodd aelodau’r Bwrdd hefyd ynglŷn â phroblemau sy’n gysylltiedig â pharatoi adroddiadau a chytunwyd i sicrhau bod targedau ac amserlenni eglurach yn cael eu cynnwys yn adroddiadau’r Cyfarwyddwr.

Yn sgîl y pwyslais hwn ar adroddiadau gan y ddwy ochr , mae adroddiadau monitro 2011/12 yn dangos y cynnydd a wnaethpwyd wrth olrhain gweithgareddau unigol gyda golwg ar dargedau a dangosyddion perfformiad. Er hynny, mae’n dal yn anodd sicrhau trawsgyfeirio cyson rhwng canlyniadau sydd wedi’u diffinio’n glir a’r ffordd o’u mesur. Nid yw’r fframwaith perfformiad yn cynnig llwybr clir eto rhwng gweithgareddau CYD Cymru ac allbynnau a chanlyniadau ac nid yw’r adroddiadau am gynnydd yn gyflawn o hyd. Rhan o’r broblem yma yw, oherwydd bod amserlen cyflawni'r targedau'n amserlen mor hir (e.e. creu Ymddiriedolaethau Datblygu newydd) y drefn arferol yw sôn am gynnydd drwy gyfeirio at weithgareddau perthnasol a gyflawnwyd yn hytrach nag at gyflawni’r targed penodol.

Bydd angen diwygio fframwaith perfformiad CYD eto er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer y llwybrau cymhleth sy’n cysylltu gweithgareddau ag allbynnau a chanlyniadau a sylweddoli bod angen fframio’r targedau meintiol mewn naratif llawnach (Theori Newid). Byddai hynny'n golygu bod modd trafod dangosyddion perfformiad allweddol yn eu cyd-destun strategol a gweithredol ehangach. Ar wahân i gryfhau’r berthynas monitro, byddai hyn hefyd yn creu llwyfan ar gyfer trafodaethau mwy ystyrlon ynglŷn â sut mae gweithgareddau CYD Cymru yn cydweddu â gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae’n hanfodol hefyd i CYD Cymru allu cydblethu targedau perfformiad Llywodraeth Cymru â’i nodau a’i hamcanion hi ei hun ac â dulliau gweithio'r sefydliad. Mae angen cydblethu'r targedau y cytunir arnynt er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd y genhadaeth yn pylu a bod gorddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sefydliad megis CYD Cymru sy’n cyflawni holl sbectrwm y swyddogaethau y byddai sefydliad seilwaith mentrau cymdeithasol fel rheol yn eu darparu - a’r rheini’n amrywio o ddarparu cymorth i fod yn ‘llais’ ac yn sefydliad sy’n hyrwyddo ymgysylltu strategol.

Wedi dweud hyn, mae’n ddymunol bod CYD Cymru yn monitro datblygiad cyffredinol rhwydwaith yr Ymddiriedolaethau Datblygu. Drwy gymharu hyn â’r arferion a ddilynir gan Locality[9] yn Lloegr er enghraifft, fe ellid mynegi’r datblygiad hwn ar ffurf y £oedd a ddenir i’r rhwydwaith, asedau sydd o dan reolaeth, incwm a gynhyrchir, staff a gyflogir a gwirfoddolwyr a ddenir ac ati.

Er mwyn asesu ymhellach a gyflawnwyd gweithgareddau a noddwyd yn unol â’r cynllun, adolygwyd y dogfennau a oedd ar gael. Defnyddid y fframwaith perfformio blaenorol o hyd at ddibenion monitro ac adrodd tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2010/11. Felly, roedd y materion a godwyd yn yr adolygiad gwerth am arian blaenorol yn dal i fodoli yn y cyfnod hwnnw, sy’n golygu ei bod yn anodd asesu’n llawn i ba raddau y cyflawnwyd targedau penodol.


Fodd bynnag, mae Crynodeb Monitro CYD Cymru 2011/12 (sydd i’w weld yn Atodiad 4) yn darparu ciplun defnyddiol iawn o’r gweithgarwch a’r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn ac mae’n awgrymu bod y targedau, gan mwyaf, wedi’u cyflawni. Er nad yw’r wybodaeth fonitro’n gymorth i olrhain y dangosyddion penodol yn gyson, fel y’u rhestrir yn y Llythyr Dyfarnu, drwy driongli’r canlyniadau wrth adolygu’r wybodaeth fonitro, cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a chyfweliadau â rhanddeiliaid, awgrymir bod gweithgareddau CYD

[9] Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu’r Deyrnas Unedig wedi’i hailenwi a’i hailfrandio

Cymru yn berthnasol i'r targedau a'r dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru a'i bod yn eu cyflawni.

Hyd yn oed a chydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â defnyddio dangosyddion perfformiad meintiol o safbwynt Gwerth am Arian, mae'n ddymunol ystyried rhyw fath o ddadansoddiad meintiol. Felly, rydym wedi adolygu cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd[10] er mwyn cael ciplun o hyd a lled y gwahanol weithgareddau. Mae'r ffigur isod yn rhestru nifer y gweithgareddau o dan bob categori a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd ers mis Mawrth 2008[11].

***Figure 4. Ymyriadau cymorth i CYD Cymru a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd 2008 - 2012***




Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod arian craidd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefn i swm sylweddol a chryn amrywiaeth o ymyriadau uniongyrchol gan CYD Cymru o ran cefnogi Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes, cynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi cyw Ymddiriedolaethau Datblygu a sefydliadau sydd â diddordeb mewn mabwysiadu eu hegwyddorion.

Credwn ei bod yn debygol bod y gwasanaeth ymgynghori a ddarperir gan Aelodau CYD ac a ddangosir yn y ffigur hwn yn tanamcangyfrif gwir faint y gweithgarwch. Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid ac ag aelodau CYD Cymru yn awgrymu bod llawer o gyfnewid gwybodaeth, cynghori a mentora anffurfiol yn digwydd nad yw'n cael ei gofnodi drwy'r dulliau adrodd ffurfiol.

[10] Ymgymerwyd â'r dadansoddiad hwn ar sail cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn hytrach na'r adroddiadau monitor oherwydd eu bod yn cyfeirio'n fwy cyson at ymyriadau penodol yn hytrach na cheisio cysoni gweithgareddau a llwyddiannau â thargedau a dangosyddion perfformiad. Mae hyn yn golygu bod modd dadansoddi gweithgareddau go iawn yn fwy clir.

[11] Nid yw cofnodion y Bwrdd ond yn cofnodi cyflwyno adroddiad llafar y Cyfarwyddwr. Yn sgil hyn, mae'r dadansoddiad hwn yn debygol o danamcangyfrif y gwir ymyriadau.

Mesur meintiol arall ar weithgarwch CYD Cymru sydd wedi bod o ddiddordeb arbennig o safbwynt Llywodraeth Cymru yw nifer aelodau CYD Cymru (er, ers mabwysiadu set o dargedau a dangosyddion perfformiad diwygiedig ddechrau flwyddyn ariannol 2011/12, nid yw hynny'n rhan o'r gofynion monitro meintiol ffurfiol rhagor).

Mae'r ffigur isod yn cynnig dadansoddiad cymharol o aelodau CYD Cymru.

***Figure 5.*** ***Nifer yr aelodau yn y DU o'u cymharu â'r boblogaeth***

| | Aelodau | | | Cyniferydd Poblogaeth (CP) | | (+/-) o'i gymharu â'r CP |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % o gyfanswm aelodau'r DU | | | | |
| Lloegr | 423 | 63.5% | | 84.0% | | -20.5% |
| Yr Alban | 190 | 28.5% | | 8.3% | | 20.2% |
| GI | 8 | 1.2% | | 2.8% | | -1.6% |
| Cymru | 45 | 6.8% | | 4.9% | | 1.9% |
| | 666 | 100% | | 100% | | |

Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu, wrth gymharu nifer aelodau CYD Cymru â chyfanswm nifer yr aelodau yn y Deyrnas Unedig, bod CYD Cymru'n gwneud yn dda, gyda 6.8% o aelodau o'i chymharu â chyniferydd poblogaeth o 4.9% ar gyfer Cymru.

O gymharu'r data â data CYD Lloegr - sy'n tanberfformio 20.5% o ran nifer absoliwt yr aelodau a Gogledd Iwerddon sy'n tanberfformio 1.6%, mae Cymru'n gwneud yn dda. Dim ond yr Alban, sy'n gorberfformio 20.2% yn y cyswllt hwn sydd â dwysedd aelodaeth uwch o lawer ar sail maint y boblogaeth na Chymru.

Er bod y dulliau mesur hyn yn eithaf amrwd ac er nad ydynt yn ystyried dwysedd y boblogaeth na maint yr Ymddiriedolaethau Datblygu na'r amgylchiadau lleol penodol, maent yn awgrymu bod CYD Cymru, gyda 45 o aelodau llawn neu egin aelodau a dwy Ymddiriedolaeth Datblygu ym mhob Ardal Awdurdod Lleol ar gyfartaledd[12], wedi gweithio'n effeithlon i gynyddu nifer briodol o aelodau a'u cynnal.

Yn yr un modd, mae nifer yr ymyriadau sy'n gysylltiedig â pholisi wedi cael eu mapio hefyd ar sail cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd. Mae hyn yn awgrymu, yn ystod tair blynedd ariannol 2009 - 2012, fod CYD Cymru wedi cyfrannu'n amlwg, o leiaf 22 o weithiau[13] at gynlluniau polisi penodol ac wedi cyfrannu at waith polisi cenedlaethol o leiaf 18 o weithiau.

Mae'r ffordd y mae'r ymdrech wedi'i dosbarthu rhwng gwahanol weithgareddau hefyd yn awgrymu bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu; mae amser ac adnoddau sylweddol wedi'u neilltuo er mwyn i CYD Cymru gyfrannu at ddatblygu Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol ac mae wedi treulio llai o amser ar weithgareddau mwy archwiliol, megis dadansoddi buddion economaidd 'asedau dros dro' yng Nghymru.

Gellir gweld dimensiwn arall ar effeithlonrwydd CYD Cymru wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd y mae'n cyrraedd gwahanol fathau o sefydliadau i weithio gyda hwy.


[12] Mae angen ychwanegu 18 aelod cysylltiol at hyn.

[13] Unwaith eto, gellir disgwyl i'r union nifer fod yn uwch, oherwydd nid yw'r ffigur hwn ond yn cofnodi'r ymyriadau hynny y cofnodwyd yn benodol eu bod wedi'u trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Mae'r tabl isod yn dangos mai cefnogi sefydliadau ar lawr gwlad sydd wedi llyncu'r rhan fwyaf o adnoddau CYD Cymru. Mae hyn yn unol â'r targedau perfformiad sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gryfhau'r Ymddiriedolaethau Datblygu presennol a defnyddio'u profiad a'u dylanwad i hybu creu Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a chynorthwyo ymdrechion i drosglwyddo asedau a mentrau cymunedol yn fwy eang.

Fel y gwelir, roedd cysylltiadau gyda 32 o blith cyfanswm o 98 o sefydliadau unigol y mae CYD Cymru wedi gweithio gyda hwy yn ystod cyfnod yr adolygiad, yn ymwneud â phrosiectau trosglwyddo asedau ac egin neu ddarpar Ymddiriedolaethau Datblygu.

***Figure 6.*** ***Cyrhaeddiad CYD Cymru o ran nifer a natur y sefydliadau.***




Wrth adolygu nifer y cysylltiadau rhwng CYD Cymru a'r sefydliadau unigol hyn, gwelir nad yw rhai ond yn ymddangos unwaith ar gyfer cyfarfodydd unigol sy'n awgrymu mai cyfarfodydd i gynyddu ymwybyddiaeth oedd y rhain. Mae eraill wedi bod yn gysylltiadau hirhoedlog a dwys gyda CYD Cymru. Ambell enghraifft bwysig o hyn yw nifer o sefydliadau sydd wedi'u sefydlu yn sgîl hyn yn unol ag egwyddorion Ymddiriedolaethau Datblygu ac sydd wedi dod yn aelodau o CYD Cymru (e.e. Transition Llambed, Ymddiriedolaeth Datblygu Dinbych y Pysgod, neu Glyn Wylfa).

Yn yr un modd, llwyddwyd i gynnal cysylltiad cyson â sawl Cymdeithas Dai ac â Thai Cymunedol Cymru, sydd unwaith eto'n awgrymu bod CYD Cymru yn rhannu ei hamser a'i hadnoddau ar sail pa mor effeithiol y mae'n disgwyl i'r cysylltiadau unigol fod. Mae Tai Cymunedol Bron Afon, ers y cysylltiadau cychwynnol, wedi coleddu athroniaeth yr Ymddiriedolaeth Datblygu'n llawn ac wedi cofrestru'n aelod llawn o CYD Cymru.

Y tu hwnt i'r dadansoddiad meintiol hwn, mae tystiolaeth hefyd fod ymdrechion cyson wedi'u gwneud i adeiladu ar asedau gwybodaeth a grynhowyd drwy ddefnyddio'r arian craidd er mwyn sicrhau'r canlyniadau a'r effeithiau gorau posibl.

O'r ymgysylltu cychwynnol wrth ddarparu rhaglen yr Ysgol Adfywio i'r digwyddiadau mwyaf diweddar a gynhaliwyd yng nghyd-destun cynllun SOS y Loteri Fawr/Pentref y BBC o dan gontract gan Locality a Sefydliad Plunkett neu weithgareddau ym maes ynni cymunedol a chymunedau'n datblygu eu hasedau eu hunain, mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn awgrymu bod Bwrdd a rheolwyr CYD Cymru wedi canolbwyntio'n gyson ar gynyddu hyd a

lled y gweithgareddau sy’n cael eu cefnogi yn y pen draw gan yr arian craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae’r dadansoddiad hwn yn cadarnhau unwaith eto bod CYD Cymru wedi darparu gweithgareddau’n gyson yn unol â’r nodau a’r amcanion a fabwysiadwyd ar gyfer y sefydliad gan y bwrdd ac fel y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Nid oes amheuaeth ychwaith, o ran swmp y gweithgareddau a ddarparwyd, bod CYD wedi gwneud mwy na’r disgwyl petai rhywun yn edrych ar yr arian craidd yn unig. Mae’r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu bod arbenigedd unigryw CYD Cymru ym maes trosglwyddo asedau cymunedol wedi bod yn hawdd cael gafael arno erioed. Mae ei phresenoldeb rheolaidd mewn cynadleddau, digwyddiadau dysgu a chyfarfodydd lefel-uchel wedi cael ei ddefnyddio ar hyd yr adeg i gyfoethogi’r sylfaen wybodaeth hon yn barhaus. Mae ei digwyddiadau hi ei hun, cyfraniadau at ddigwyddiadau perthnasol eraill a rhaglenni dysgu a chyfleoedd penodol wedi’u galluogi drwy ddenu arian ychwanegol ac mae wedi cynnal ei hymwybyddiaeth o’r amgylchedd strategol drwy gydol y cyfnod.

Serch hynny, nid oes rhaglen waith gydlynol wedi bod bob tro i greu ffrâm ar gyfer y gwaith hwn. Hefyd, nodwn fod y cymorth y bydd CYD Cymru yn ei roi i Ymddiriedolaethau Datblygu sy’n bodoli eisoes, i egin Ymddiriedolaethau ac i brosiectau eraill yn gymorth ymatebol gan mwyaf yn hytrach nag yn rhagweithiol a’u bod yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau a wneir ar lefel sefydliadau’r buddiolwyr eu hunain. Felly, nid oes modd mapio taflwybr clir ar gyfer pob ymyriad unigol na llunio barn ynglŷn ag effeithlondeb defnyddio adnoddau ar sail disgwyliadau manwl ynglŷn â chanlyniadau penodol. Fodd bynnag byddai’n ddymunol i CYD Cymru weithio ar sail rhaglen waith sydd wedi’i ffurfio’n fwy clir a chyfoethogi a mireinio’i phenderfyniadau ynglŷn â sut i ddyrannu adnoddau'n effeithlon drwy adeiladu corff o dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau. Byddai gwneud hyn hefyd yn creu sylfaen gliriach ar gyfer trafodaethau ynglŷn â sut y gellir a sut y dylid defnyddio adnoddau CYD Cymru i ymateb i flaenoriaethau neu geisiadau penodol iawn Llywodraeth Cymru.

## 3.3 Effeithiolrwydd

Mae effeithiolrwydd yn canolbwyntio’r sylw ar ganlyniadau megis, a yw’r gweithgareddau a noddwyd wedi sicrhau’r canlyniadau a ddisgwylid, pa ganlyniadau ychwanegol sydd wedi’u cyflawni, os o gwbl, a sut y manteisiwyd i’r eithaf ar effeithiolrwydd.

Fe all yr ymatebion i gwestiynau ynglŷn ag effeithiolrwydd orgyffwrdd a’r rheini sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd. Serch hynny, yma, rydym wedi ystyried y canfyddiadau a’r ymatebion a gawsom yn sgîl ein hymchwil ansoddol yn ystod y cyfweliadau strwythuredig gyda rhanddeiliaid ac aelodau Bwrdd CYD Cymru yn ogystal ag yn yr astudiaethau achos a’r cyfweliadau cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae ystyried effeithiolrwydd gweithgareddau CYD Cymru yn cynnig cyfle hefyd i ystyried nodau ac amcanion cyffredinol CYD Cymru ei hun a rhai Llywodraeth Cymru.

Mae’n ymddangos bod y trefniadau monitro a rheoli perfformiad sy’n gysylltiedig â threfniadau ariannu craidd CYD Cymru wedi cael eu cymylu rhywfaint wrth iddynt symud i’r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Roedd hyn yn cyd-daro â mabwysiadu’r Rhaglen Lywodraethu a’r newid o ran disgwyliadau yn sgîl hynny ynghyd â’r anawsterau i

gyfleu'n glir sut y mae'r gweithgareddau a gyflawnir mewn gwirionedd yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth i gymunedau ar lawr gwlad.

Dylid nodi ei bod yn rhaid asesu gwerth am arian yn y lle cyntaf ar sail cyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt. Mae'r drafodaeth hyd yn hyn yn awgrymu bod CYD Cymru wedi gwneud defnydd cymharol effeithlon o'r symiau y cytunwyd arnynt i gyflawni set ddiffiniedig o dargedau'n ymwneud â chynyddu ymwybyddiaeth, creu Ymddiriedolaethau Datblygu newydd, darparu gweithdai, cyfrannu at bolisïau a chynhyrchu incwm ychwanegol.

Y tu hwnt i hyn, fodd bynnag, er mwyn asesu gwerth am arian yn ei grynswth, mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â beth yw ystyr effeithiolrwydd i sefydliad megis CYD Cymru, ac yn wir, i'r Ymddiriedolaethau Datblygu eu hunain.

- Mae Ymddiriedolaethau Datblygu'n arddel ymagwedd benodol at adfywio sy'n mabwysiadu safbwynt tymor hir er mwyn newid tynged Cymunedau yn ei hanfod. Llwyddiant i Ymddiriedolaethau Datblygu yw datblygu sylfaen asedau sydd wrth wraidd cymunedau ac sy'n cynnig llwyfan ar gyfer darparu gwell gwasanaethau yn y cymunedau hynny ac yn ysgogi ac yn hwyluso proses o greu rhagor o brosiectau menter.
- Swyddogaeth CYD Cymru yw creu cysylltiad byw rhwng profiad ymarferwyr ar lawr gwlad a'r amgylchedd o'u cwmpas drwy ddarparu cymorth a chyngor a thrwy helpu i greu amgylchedd polisi cefnogol ar gyfer gwaith Ymddiriedolaethau Datblygu.

Felly, mae CYD Cymru yn 'bibell' i fwydo profiad – da a drwg – ar draws yn ogystal ag i fyny o'r gwreiddiau i fyd polisi ar lefel Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru a hefyd, i fwydo gwybodaeth allanol a chyfeiriad strategol i lawr i'r Ymddiriedolaethau Datblygu a'u cymunedau.

O ran effeithiolrwydd **cymorth** CYD Cymru wrth gyfrannu at lwyddiant **Ymddiriedolaethau Datblygu** sy'n bodoli eisoes, mae'n ymddangos bod CYD Cymru wedi bod yn effeithiol iawn yn cyfoethogi ei rôl fel arbenigwr, galluogwr a lluoswr.

O ran yr amserlenni sydd dan sylw, rhaid ystyried datblygiadau dros sawl blwyddyn wrth ddarparu tystiolaeth ynglŷn â hyn. Mae'r cydweithredu â Cylch wrth recriwtio a darparu rhaglen yr Ysgol Adfywio ar gyfer cohort y gogledd yn enghraifft o lwyddiant o'r fath. Yn y cyswllt hwn, gellid dadlau bod cysyniad yr Ysgol Adfywio - a gyflwynwyd yng Nghymru gan Gyfarwyddwr CYD Cymru - sef tywys grŵp o arweinwyr menter cymunedol drwy gyfnod 6 mis dwys o weithdai a mentora, wedi bod yn hollbwysig yn ysgogi gweithgarwch o gwmpas canolfan ailddefnyddio tecstiliau yn y gogledd; aeth pob un o'r sefydliadau dan sylw drwy broses yr Ysgol Adfywio.

Wrth gynnal cyfweliadau â sawl Ymddiriedolaeth Datblygu, awgrymwyd bod CYD Cymru'n chwarae rhan frwd iawn yn cefnogi'r Ymddiriedolaethau Datblygu'n barhaus drwy gynnig yr arbenigedd penodol iawn sydd ganddi mewn ffordd rwydd a buddiol. Yn ogystal â chynnig cymorth uniongyrchol o'r fath, mae gwaith cydlynu a hyrwyddo CYD Cymru yn elfen hollbwysig o gynnal cysylltiadau rheolaidd rhwng Ymddiriedolaethau Datblygu ledled Cymru a hynny ar lefel cymheiriaid, gan sicrhau bod arferion da'n llifo rhyngddynt a'u bod yn cyd-drafod. Awgrymodd un aelod o'r Bwrdd fod cefnogi Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes a chefnogi rhai newydd yn gofyn am ddulliau gwahanol iawn; *'Yn ddiweddarach yng nghylch bywyd Ymddiriedolaethau Datblygu, bydd angen mwy o gymorth ac arweiniad strategol arnynt a dyna pryd y bydd angen rhannu arferion da a cheisiadau am gymorth ar*

*lefel uwch gan aelodau Bwrdd CYD Cymru neu arweinwyr Ymddiriedolaethau Datblygu eraill drwy gyfrwng CYD Cymru.'*

Mae astudiaeth achos Caerdydd yn sicr yn awgrymu bod CYD Cymru, drwy weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Datblygu leol, wedi gallu meithrin perthynas o ymddiriedaeth gref gyda'r Awdurdod Lleol, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu polisi trosglwyddo asedau newydd ac wedi cyfrannu at ystyried gwahanol gyfleoedd i drosglwyddo asedau, y dirwedd sefydliadol sy'n amgylchynu cyfleoedd o'r fath ac unrhyw heriau sydd ynghlwm wrth hynny.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu i'r cyfuniad hwn fod yn hollbwysig o ran Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes o ran llwyddo i gael arian gan y Tîm Cynghori ac Achosion, neu sicrhau bod prosiectau trosglwyddo asedau'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus. At hynny, mae gweithgareddau datblygu busnes diweddar CYD Cymru nid yn unig wedi cynhyrchu incwm i CYD Cymru ac wedi symud y ddadl yn ei blaen o ran archwilio gweithgareddau newydd ym maes mathau newydd o asedau megis ynni cymunedol, coetiroedd ac ym maes cyffredinol cynaliadwyedd gan weld eu bod cynnig cyfle i rymuso cymunedau. Maent hefyd yn creu buddion amlwg iawn i'r aelodau, er enghraifft y costau sylweddol a arbedwyd i'r Ymddiriedolaethau Datblygu cysylltiedig drwy un o'r prif ddatblygiadau, y Grŵp Prynu Ynni. Maent yn cryfhau'r hyn sydd gan CYD Cymru i'w gynnig i'w haelodau ac yn rhoi cymorth uniongyrchol iddynt fod yn gynaliadwy.

Mae'r dull hwn o weithio gydag Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes ar faterion ymarferol iawn yn gyson â safbwynt un rhanddeiliad menter gymdeithasol a oedd yn ymwneud gryn dipyn â datblygu Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru. Roedd yn bendant iawn na ddylai'r sector ddilyn model datblygu busnes y brif ffrwd, oherwydd mai'r hyn yr oedd ei angen oedd datblygu'r unigolion a'u busnesau; '*Mae gormod o gyrsiau hyfforddi. Dylid canolbwyntio rhagor ar ddatblygu unigolion.'*

Gwelir rôl CYD Cymru fel lluoswr wrth iddi ddarparu cymorth i Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a darpar Ymddiriedolaethau ac mae'n arbennig o amlwg wrth ystyried y rôl a ysgwyddir gan lawer o Ymddiriedolaethau Datblygu sefydledig, llawer ohonynt yn aelodau o Fwrdd CYD Cymru. A hwythau'n aml wedi elwa o gymorth a chyngor uniongyrchol dwys eu hunain gan CYD Cymru (ac, yn ôl sawl un a gyfwelwyd, yn dal i fanteisio ar yr adnodd hwn yn rheolaidd), mae'r sefydliadau hyn (a'r unigolion allweddol sy'n gefn iddynt) yn cefnogi'n frwd iawn brosiectau eraill sy'n trosglwyddo asedau a darpar Ymddiriedolaethau Datblygu yn eu hardal.

Mae'r ddau gyfweliad a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn mewn astudiaethau achos yn dangos sut mae hyn yn digwydd. Mae gan gyn aelod o Fwrdd CYD Cymru[14], ac yntau wedi'i secondio o Awdurdod Lleol ac yn arwain creu Partneriaeth Dyffryn Dyfrdwy, bellach yn gwneud gwaith allweddol, sef pontio'r bwlch rhwng yr Awdurdod Lleol a phrosiectau cymunedol sy'n awyddus i drosglwyddo asedau. Mae gan yr Awdurdod Lleol perthnasol bellach *'ymrwymiad cryf i'r agenda trosglwyddo asedau'* ac fe lwyddodd ei dîm i symud prosiect trosglwyddo asedau cyfredol yn ei flaen yn sylweddol. Mae bellach wedi sicrhau arian Trosglwyddo Asedau Cymunedol). Mae'r cysylltiad â CYD Cymru felly wedi creu capasiti menter ychwanegol sydd â'i wreiddiau yn yr ardal leol.

Mae'r ail gyfweliad astudiaeth achos, yng Nghaerdydd, yn dangos sut mae'r Awdurdod Lleol yn mynd ar ofyn yr Aelod perthnasol o'r Bwrdd a'r ymarferydd trosglwyddo asedau i

[14] Sydd wedi dychwelyd yn ddiweddar i'r Awdurdod Lleol ac sydd o ganlyniad wedi ymadael â Bwrdd CYD Cymru.

archwilio a helpu i ddatblygu cyfleoedd posibl ar gyfer trosglwyddo asedau mewn mentrau cymunedol sy'n bodoli eisoes neu fentrau newydd pan fydd adeiladau ar gael. Mae hefyd yn cael ei weld yn rhyw fath o 'borthor' sy'n asesu hyfywedd prosiectau posibl mewn ffordd realistig.

Mae'r ddau a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaethau achos yn dweud eu bod yn dal i gael cymorth cadarn iawn gan adnodd craidd CYD Cymru a bod Cyfarwyddwr CYD Cymru yn bresenoldeb cryf ar adegau hollbwysig pan fydd prosiectau'n fyw. Maent yn sôn hefyd am gyfraniad helaeth CYD Cymru at ddatblygu ac am ddefnyddio'r gyfres o arfau a ddatblygwyd ac a ledaenwyd ganddi (h.y. y Prawf Iechyd, y gyfres o astudiaethau achos, adroddiadau am agweddau penodol ar drosglwyddo asedau) sy'n cael eu hystyried yn amhrisiadwy.

Un peth sy'n codi wrth ystyried cymorth CYD Cymru i Ymddiriedolaethau Datblygu unigol yw sut y gall y ffaith nad oes ganddi broses dyrannu adnoddau fwy cadarn er mwyn sicrhau bod gweithgareddau CYD Cymru'n cael y dylanwad mwyaf posibl effeithio'n uniongyrchol ar ei heffeithiolrwydd. Pan fydd adnoddau'n brin, bydd gofyn dogni'r cymorth i ryw raddau, ac nid yw bob tro'n amlwg sut y bydd yn gwneud hyn. Awgrymodd un aelod o'r Bwrdd y gall fod *'tuedd i ddarparu gormod o help i Ymddiriedolaethau Datblygu unigol lle y dylai CYD Cymru mewn gwirionedd adael iddynt fwrw ymlaen â phethau mwy ac yn gynt yn y broses, yn enwedig y rheini sy'n straffaglu'n fawr'.*

Fodd bynnag, mae'r dyfyniad hwn hefyd yn awgrymu rhywfaint o dyndra rhwng disgwyliadau Llywodraeth Cymru, sef bod CYD Cymru yn mynd ati'n frwd iawn i sicrhau hyfywedd Ymddiriedolaethau Datblygu, a model gweithredol a disgyblaethau masnachol CYD Cymru. Mae hwnnw, i bob golwg, yn awgrymu nad dyma'r llwybr gweithredu mwyaf priodol er mwyn sicrhau'r nodau a'r amcanion mwy hirdymor ac adfywio cymunedau. Felly, mae tyndra cynhenid rhwng bod yn ddarparwr gwasanaethau ac yn alluogwr sy'n ymwneud â datblygu strategol. Ar gyfer y cyntaf, byddai gofyn darparu cymorth ymarferol sylweddol ac estynedig iawn. Ar gyfer yr ail, byddai angen canolbwyntio rhagor ar hyrwyddo arferion da, darparu arbenigedd mewn meysydd arbenigol ac ysgogi dysgu a thrafod.

Felly, mae cysylltiad clos rhwng y cymorth a roddir i Ymddiriedolaethau Datblygu newydd neu i ddarpar Ymddiriedolaethau ac effeithiolrwydd CYD Cymru wrth iddi g**reu Ymddiriedolaethau Datblygu newydd,** sef un o'r targedau gwreiddiol yn fframwaith perfformiad 2008 - 2011, yn ogystal ag yn y fersiwn ddiwygiedig. Gan mai dyma'r arwydd amlycaf o lwyddiant CYD Cymru yng ngolwg Llywodraeth Cymru, mae rhywfaint o drafodaeth wedi bod ynglŷn ag a allai CYD Cymru gyflawni rhagor.
Mae gwybodaeth fonitro 2011/12 yn cynnig llawer o fanylion am y rhyngweithio â chyrff penodol yn y gymuned sy'n awyddus i ddod yn Ymddiriedolaeth Datblygu. Mae sawl un o'r rhain wedi ymuno â CYD Cymru ers hynny ac wedi cael statws 'Egin Ymddiriedolaeth Datblygu'. Awgrymodd un o aelodau'r Bwrdd a gyfwelwyd fod *'y cynnydd yn nifer yr aelodau i ryw 45 – cynnydd o 50% yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf – yn dyst i'r cyngor a'r mentora ymarferol y gall CYD Cymru ei ddarparu, yn enwedig yn y dyddiau cynnar er mwyn cychwyn Ymddiriedolaethau Datblygu newydd.*

Serch hynny, byddai'n fwy dymunol petai'r wybodaeth fonitro a rheoli perfformiad yn adlewyrchu'n fwy clir y llwybr sy'n arwain o'r gweithgareddau penodol at y canlyniadau. Er nad all CYD Cymru yn y pen draw sicrhau hyfywedd masnachol yr Ymddiriedolaethau Datblygu, byddai cyfleu'n fwy clir sut y gallai gweithgareddau o'r fath gyfrannu at ystyriaethau allweddol (e.e. creu swyddi neu ddenu buddsoddiad, ond hefyd ymgysylltu â'r

gymuned neu wella'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol) yn cryfhau'r gyd-ddealltwriaeth ynglŷn â sut mae CYD Cymru yn cyfrannu at amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Heb wneud hyn, gellid gweld yr ystod eang o gyfarfodydd a gynhelir gyda grŵp amrywiol iawn o sefydliadau, a rhai o'r rheini weithiau'n golygu un cyfarfod yn unig, er enghraifft, o le y gellid defnyddio'r adnoddau'n fwy effeithiol drwy gael ffocws mwy pendant.

Mae aelodau Bwrdd CYD Cymru yn awgrymu nad yw union nifer yr Ymddiriedolaethau Datblygu a grëir o reidrwydd yn cynnig mesur cywir iawn o lwyddiant CYD Cymru. I ddechrau, mae creu Ymddiriedolaethau Datblygu, fel sy'n wir am unrhyw weithgarwch economaidd arall wedi dioddef yn sgîl y dirwasgiad. Hefyd, ni all CYD Cymru ond weithio gyda strwythurau cymunedol a threfniadaethol sydd eisoes yn bodoli ar lawr gwlad. Mae'r rhain, i ryw raddau, wedi dod o dan ddylanwad statws 'Cymunedau yn Gyntaf ' llawer o'r cymunedau hynny sydd fwyaf addas ar gyfer Ymddiriedolaeth Datblygu. Mewn ambell achos, mae Ymddiriedolaeth Datblygu wedi gallu chwarae rhan allweddol yn y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf gan sicrhau bod meddylfryd fenter gref yn bwrw gwreiddiau ynddi o'r cychwyn cyntaf. Mewn cymunedau eraill, fodd bynnag, gellid dadlau bod rhywfaint o gystadleuaeth wedi bod ar gyfer 'adnoddau gweithredwyr cymunedol' sydd wedi golygu ei bod yn llai tebygol y gwnaiff Ymddiriedolaeth Datblygu egino. At hynny, fe allai asesu'r hyn y mae Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes a'r cymunedau sy'n gartref iddynt wedi'i gyflawni fod yn ffordd fwy ystyrlon o fesur llwyddiant. Serch hynny, mae tystiolaeth bod CYD Cymru yn effeithiol iawn yn defnyddio seilweithiau presennol yr Ymddiriedolaethau Datblygu er mwyn cyfrannu at adfywio. fel y'i disgrifir uchod.

Disgrifiodd un aelod o'r Bwrdd swyddogaeth arian craidd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn tyfu'r rhwydwaith o Ymddiriedolaethau Datblygu drwy ddweud ei bod yn darparu'r adnoddau i helpu aelodau i sefydlu'r asedau y gellir eu defnyddio wedyn i gryfhau llwyddiannau Ymddiriedolaethau Datblygu unigol, i wneud rhagor o waith i hyrwyddo cysyniad Ymddiriedolaethau Datblygu, i ysgogi creu ymddiriedolaethau ychwanegol ac i helpu i lunio polisïau. *'Mae'n creu fframwaith i bobl roi rhywbeth i mewn a chael rhywbeth allan.'*

Mae defnyddio prosiectau arddangos fel hyn fel adnodd effeithiol yn dibynnu i raddau ar y **gweithgareddau cryfhau ymwybyddiaeth** sy'n sail iddynt ac mae angen cydymdrechu i sicrhau bod CYD Cymru a'r Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n gysylltiedig â hi'n gyffredinol amlwg fel corff sy'n cynnal gweithgareddau hyrwyddo rhagweithiol sydd wedi'u targedu.

Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid eraill ym maes cymorth i fentrau cymdeithasol yn awgrymu bod CYD Cymru yn amlwg yn cael ei hadnabod fel y llais awdurdodol ynglŷn â throsglwyddo a datblygu asedau cymunedol ac, yn y cyswllt hwnnw, mae'n amlwg iawn. Er nad oes llawer o ddadansoddi ffurfiol wedi'i wneud ar effeithiolrwydd yr ystod o arfau lledaenu penodol (h.y. astudiaethau achos, adroddiadau, astudiaethau achos ar fideo) roedd un aelod o'r Bwrdd yn meddwl bod '*y ffaith bod CYD ar hyn o bryd yn gweithio gyda 6 chymuned lle mae ymddiriedolaethau datblygu'n egino a'r rheini, mae'n debyg, wedi cael eu hysbrydoli gan yr wybodaeth hon, o bosibl yn awgrymu i ba raddau y mae'r gwaith hwn yn cyrraedd pobl ac yn dylanwadu arnynt.'*

Serch hynny, mae'r gymuned randdeiliaid, i bob golwg, yn llai clir ynglŷn â gwerth ehangach CYD Cymru. Yng nghyd-destun amgylchedd polisi sy'n newid ac agenda mentrau cymdeithasol ddeinamig, mae angen ailddatgan ac ailffurfio swyddogaeth fanwl a gwerth Ymddiriedolaethau Datblygu yn barhaus. Oherwydd y cyfyngiad ar ei maint o bosib, mae rhai'n meddwl bod  CYD Cymru yn cael ei harwain gormod gan yr ymarferwyr. Fel y

dywedodd un rhanddeiliaid o fenter gymdeithasol, *'mae CYD wedi datblygu nifer o ddulliau diddorol, ond sefydliadau'r ymarferwyr sydd wedi bwrw ymlaen â'r elfennau arferion gorau hyn, er enghraifft ym maes mentora. Mae effaith a dylanwad y gymdeithas yn llai na'r hyn a gaiff cyrff cyfatebol yn y rhanbarthau. Mae'r ffordd y mae'r corff yn ei gyfleu ei hun i'r byd y tu allan yn broblem'.*

Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd hefyd fod ôl-troed CYD Cymru yn gryfach yn y de nag yn y gogledd. Fe all hyn awgrymu nad yw'r strategaeth, sef canolbwyntio llawer o'r gwaith cynyddu ymwybyddiaeth ar bresenoldeb mewn digwyddiadau perthnasol (bydd Cyfarwyddwr CYD Cymru yn mynychu'n rheolaidd ystod eang o seminarau a chynadleddau sydd â chysylltiad â'r agenda trosglwyddo asedau cymunedol) a ffora polisi a gweithredol allweddol (e.e. panel Trosglwyddo Asedau Cymunedol, panel y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol) yn ddigon cryf i gyrraedd ystod ehangach o brosiectau a sefydliadau trosglwyddo asedau posibl a allai fod â diddordeb ym model yr Ymddiriedolaeth Datblygu.

Ffordd arall o ddehongli hyn yw bod CYD Cymru wedi canolbwyntio'i hymdrechion cynyddu ymwybyddiaeth ar grŵp targed llai. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran prosiectau trosglwyddo asedau gwirioneddol ac o ran datblygu rhagor ar arferion trosglwyddo asedau. Mae hyn yn sicrhau bod ymdrechion hyrwyddo ac ymdrechion polisi yn cael eu cydblethu'n dynn. Yn wir, awgrymodd un aelod o'r Bwrdd mai un o gryfderau craidd CYD Cymru o ran rhoi llais i fentrau cymdeithasol yng Nghymru yw'r union ffaith ei bod yn *'arbenigol, yn glir ac yn unllygeidiog iawn'.*

Fel y soniwyd uchod, mae tystiolaeth o ymwneud da â ffora **polisi** ar wahanol lefelau'n amrywio o feithrin perthynas â sefydliadau unigol (e.e. yr Awdurdod Coedwigaeth) a chyfrannu at ddatblygu polisïau ar Lefel Awdurdodau Lleol (e.e. Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Wrecsam) i sicrhau sedd wrth y bwrdd ar gyfer prosiectau polisi a gweithredu (e.e. Trosglwyddo Asedau Cymunedol, protocol trosglwyddo asedau, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, Cydgyfeirio, Rhwydwaith Ynni Cymunedol Cymru). Mae'r adborth am ymyriadau o'r fath yn y rhyngwyneb rhwng polisi ac ymarfer yn awgrymu arbenigedd cryf iawn a bod ei gwasanaethau ar gael ar raddfa eang.

Er nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng yr ymagwedd hon â datblygu polisïau ar lefel Llywodraeth Cymru ei hun, mae un Aelod o'r Bwrdd yn awgrymu bod statws CYD Cymru fel corff sy'n cael arian craidd yn rhagamod pwysig er mwyn cryfhau dimensiwn polisi o'r fath oherwydd *'dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu CYD Cymru, y bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac ati'n gweld ei bod yn werth gwrando arni.'*

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn awgrymu bod CYD Cymru yn effeithiol wrth ddefnyddio'r dull hwn. Ers blynyddoedd, mae CYD Cymru wedi argymell a hyrwyddo trosglwyddo asedau cymunedol fel ffordd i asiantaethau'r sector cyhoeddus sicrhau set amrywiol o amcanion sy'n rhychwantu adrannau mewn ffordd integredig. Mae'n amlwg bod y sefydliad wedi chwarae rhan hollbwysig yn sicrhau bod y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn digwydd – sy'n gam hollbwysig o ran galluogi prosiectau trosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru a phrif-ffrydio'r dull hwn.

Mae ôl-troed CYD Cymru gyda golwg ar ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru a'u rhoi ar waith, fodd bynnag, i bob golwg wedi gwanhau rhywfaint yn ddiweddar. Mae gorgyffwrdd naturiol rhwng nifer o weithgareddau CYD Cymru ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Fel rheol, er enghraifft, ni fydd yr Ymddiriedolaethau Datblygu yn arbenigo ar sectorau eang y diwydiannau y mae sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru'n ymwneud â hwy,

ond mae'r ffaith bod CYD Cymru yn canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy cymunedol yn cydweddu ag un o sectorau Llywodraeth Cymru. Trefnwyd cynhadledd gan CYD Cymru ar Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, ar y cyd â rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu yr Alban, er enghraifft, ac roedd honno'n creu cysylltiad uniongyrchol rhwng blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r prif gyfleoedd a nodwyd ar gyfer datblygiad strategol Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru ac arlwy a gweithgareddau CYD Cymru. Roedd y gynhadledd hon hefyd yn gymorth o ran creu Rhwydwaith Ynni Cymunedol Cymru.

Serch hynny, awgrymodd sawl rhanddeiliad fod CYD Cymru'n fwy diweddar wedi dod yn ysglyfaeth i'w llwyddiant ei hun i ryw raddau yn yr ystyr bod *'trosglwyddo asedau cymunedol erbyn hyn wedi bwrw gwreiddiau'* a bod *'defnyddio'r dulliau hyn ar gyfer adfywio cymunedau o bosibl yn cael ei weld yn hen ffasiwn braidd'.* Yn wir, mae'r ffaith *'nad ydynt wedi bod mor amlwg eu proffil ag yn y gorffennol'* i raddau helaeth efallai oherwydd bod rhai o'r datblygiadau mwy wedi'u cyflawni'n llwyddiannus a bod y sylw wedi symud i'r lefel leol a chanfod cyfleoedd newydd. Roedd un aelod o'r Bwrdd yn gweld y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol *'yn gyfiawnhad dros 10 mlynedd o waith y Cyfarwyddwr'.*

Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y buddsoddiad drwy'r arian craidd yn dwyn ffrwyth. Mae'r ffaith, er enghraifft, na chafodd CYD Cymru ei chomisiynu i roi cymorth i ymgeiswyr y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, ac wedyn bod llawer o'r cymorth hwn wedi'i ddarparu drwy gyfrwng adnoddau arian craidd a chymorth gan gymheiriaid, i bob golwg yn enghraifft o golli cyfle yn y cyswllt hwnnw. Canfu gwerthusiad Trosglwyddo Asedau Cymunedol fod y *'rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn y trydydd sector yn meddwl nad oedd rôl CYD wedi'i chynnwys yn ddigonol yn y ffordd y darperid y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddyfnder y profiad a'r wybodaeth a allai fod ar gael i brosiectau a noddid drwy'r drefn Trosglwyddo Asedau Cymunedol a'r rhaglen drwyddi draw.* Er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd hwn yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf, bydd angen i adrannau Llywodraeth Cymru fynd ati mewn ffordd fwy cydgysylltiedig o lawer.

Mae canfyddiad amlwg ymhlith yr aelodau bod swyddogaeth graidd CYD Cymru 'yn hanfodol ar gyfer adrodd yn ôl am waith trosglwyddo a datblygu asedau, hyrwyddo aelodau CYD Cymru a sicrhau cynrychiolaeth deg yn y llywodraeth ac o ran llunio polisïau.' Yn wir, mae'n amlwg, heb weithgareddau arian craidd CYD Cymru, y byddai Llywodraeth Cymru yn colli arf bwysig i gefnogi'r agenda trosglwyddo asedau lle bydd cymunedau'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hynny. Heb y cyfarfodydd rheolaidd a'r fframwaith ar gyfer cymorth gan gymheiriaid, byddai Llywodraeth Cymru yn gorfod dibynnu ar aelodau unigol presennol CYD Cymru sydd o dan bwysau eu hunain.

Ar wahân i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer nifer fach o gynlluniau polisi allweddol (e.e. Trosglwyddo Asedau Cymunedol), o safbwynt effeithiolrwydd, mae'n bwysig hefyd i sefydliad megis CYD Cymru fod yn effro i gyfleoedd newydd a gallu troi'r rhain yn weithgareddau pendant er budd Ymddiriedolaethau Datblygu a sefydliadau sy'n mabwysiadu egwyddorion tebyg. O'r safbwynt hwn, mae dosbarthiad y gweithgareddau a'r sefydliadau targed yr ymgysylltwyd â hwy yn awgrymu bod CYD Cymru wedi bod yn effro i gyfleoedd newydd. Enghraifft o hyn yw sawl cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, archwilio'r agenda polisi datblygu cynaliadwy'n frwd iawn a'i rôl weithgar yn hwyluso creu Rhwydwaith Ynni Cymunedol Cymru.

Yn erbyn cefndir o gystadleuaeth gref a dyblygu posibl rhwng gwahanol gyrff cymorth ym maes mentrau cymdeithasol yng Nghymru, rhaid gweld hyn yn gryfder allweddol ac fe ellir disgwyl iddo gyfrannu at effeithiolrwydd CYD Cymru yn y dyfodol.

Yn wir, cychwynnwyd ar y gweithgareddau datblygu hyn yn rhannol yn sgîl ymarfer i ddiwygio cyfeiriad strategol CYD Cymru ar lefel y Bwrdd.

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10 gan arwain at ddechrau canolbwyntio ar ynni cymunedol a chynaliadwyedd yn fwy cyffredinol. Gan gydnabod bod yr amgylchedd strategol ar gyfer CYD Cymru wedi bod yn anodd, wrth i'r sector cymorth i fentrau cymdeithasol dueddu i gyfuno yn sgil gofynion ariannu Ewrop[15], mae'n ymddangos bod rhoi cyfeiriad strategol newydd ar waith wedi cymryd cryn amser a bod diffyg ffocws i bob golwg ar brydiau. Fel y dywedodd un aelod o'r Bwrdd, *yn gyffredinol, bydd strategaeth CYD yn cael ei datblygu drwy gyfrwng proses gyfnewid ailadroddus anffurfiol rhwng Cyfarwyddwr CYD a'r aelodau. Fe all fod hyn yn rhy llac ac fe all ddibynnu gormod ar Gyfarwyddwr a Chadeirydd CYD',* er i aelod arall o'r Bwrdd ddweud ei fod yn *'teimlo'i fod yn cael ei ddefnyddio'n dda ac yn cael gwybodaeth dda yng nghyswllt materion strategol yn ogystal ag wrth drafod materion a phrosiectau pwysig.'*

Mae cyfle bellach i drosi'r canolbwyntio strategol newydd i ddulliau mwy generig (e.e. canolbwyntio ar ffermydd gwynt cymunedol yn ddiweddar) a allai anadlu bywyd newydd i weithgareddau cryfhau ymwybyddiaeth, hyrwyddo a pholisi. Byddai cyfleu gwerth cynlluniau ynni fel cyfle economaidd a chyfraniad at yr agenda bolisi ehangach er mwyn manteisio ar y gwerth a gynhyrchir yn sgîl adnoddau naturiol Cymru ar lefel leol, er enghraifft, yn creu cysylltiad mwy amlwg o lawer â'r safbwynt datblygu economaidd ehangach.

Gan fod yr ailgyfeirio strategol bellach wedi'i gwblhau, bydd yn bwysig hefyd i CYD Cymru ailsefydlu cysylltiadau brwd â'r agendâu polisi perthnasol ar lefel Llywodraeth Cymru. Bydd angen i hyn gynnwys ymgysylltu o'r newydd er mwyn egluro disgwyliadau manwl yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth o ran perfformiad, yn ogystal â dod o hyd i ffordd o greu cysylltiadau priodol ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru sydd â budd allweddol yn agenda CYD Cymru.

---

[15] Mae WCVA a Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi dod yn gyfranwyr allweddol o ran strwythuro a gweinyddu’r math o brosiect strategol ar raddfa fawr y mae ei angen er mwyn sicrhau arian Cydgyfeirio.

# 4. Casgliadau ynglŷn â'r gwerth am arian a sicrhawyd

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd a'r dadansoddiad yn adran 3 uchod, ein casgliad yw bod Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, gan mwyaf, wedi darparu lefel dda o werth am arian y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol yn sgîl ei chymorth ariannol a'r mathau eraill o gymorth yn ystod y cyfnod 2010 – 2012.

Byddem yn tynnu sylw unwaith eto at y ffaith nad ydym wedi cynnal archwiliad ariannol o'r gymdeithas nac ychwaith wedi cynnal unrhyw brofion cyfrifyddu. Rydym wedi canolbwyntio ar asesu gwerth am arian ar sail canllawiau Trysorlys y Deyrnas Unedig sy'n dweud y dylid asesu *'cost oes gyfan ac ansawdd er mwyn diwallu gofynion y defnyddiwr'.*

Dyma'n gryno'r rhesymeg sy'n sail i'r casgliad hwn:

1. Mae ymyriad Llywodraeth Cymru yn unol â'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn y llythyrau Dyfarnu Grantiau ar gyfer y cyfnod hwn, h.y. cyfanswm o oddeutu £665,000 (£664,289) hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2011/12 (gyda £172,713 arall wedi'i gyllidebu ar gyfer 2012/12).
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro'n rheolaidd sut mae'r gwariant yn cymharu â'r gyllideb drwy gydol y cyfnod ers Dyfarnu'r Grant. Serch hynny, mae sicrhau trefniadau cyson ar gyfer monitro canlyniadau ac adrodd yn rheolaidd yn eu cylch yn her o hyd ym mherthynas CYD Cymru â Llywodraeth Cymru.
3. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu bod cryn dipyn wedi'i gyflawni a chryn gynnydd wedi bod yn y rhan fwyaf o'r prif feysydd gweithgarwch.
4. Nid yw'r wybodaeth fonitro'n gymorth i weld yn glir beth yw'r cyfraniad uniongyrchol at dargedau'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer swyddi a thwf. Ond, mae natur gweithgareddau a llwyddiannau CYD Cymru yn awgrymu y bydd llawer ohonynt yn ategu ac yn atgyfnerthu targedau'r Rhaglen Lywodraethu, er enghraifft, yng nghyswllt meithrin diwylliant entrepreneuraidd, adfywio canol trefi, gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth a goresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth, creu economi gynaliadwy sy'n rhad ar garbon neu hyrwyddo'r dull buddion cymunedol ar lawr gwlad drwy weithio'n uniongyrchol gyda mentrau cymdeithasol a chomisiynwyr y sector cyhoeddus.
5. Mae'r arian craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn hwyluso cysylltiad cyson rhwng gwead cyfoethog a rhwydwaith sefydledig o hyrwyddwyr adfywio economaidd yn y gymuned. Mae'r arian craidd yn cynnig cydlyniant mewnol i'r gymuned fudd ar sail egwyddorion Ymddiriedolaethau Datblygu, gan gynnwys yr agenda trosglwyddo asedau yng Nghymru ac mae'n galluogi pobl i fanteisio ar brofiad ei gilydd o fewn y rhwydwaith. Mae'r arian craidd hefyd wedi bod yn gatalydd i gyflwyno syniadau newydd i'r rhwydwaith ac i ysgogi datblygu dulliau a gweithgareddau newydd.
6. Mae gweithgareddau Ymddiriedolaethau Datblygu wedi'u fframio mewn cyd-destun adfywio economaidd cymunedol lle mae llawer o Ymddiriedolaethau Datblygu wedi bodoli ers blynyddoedd lawer a lle mae ganddynt hanes amlwg o weithredu'n gynaliadwy ac o ddatblygu mentrau. Felly, mae gweithgareddau Ymddiriedolaethau Datblygu wedi'u strwythuro ar sail craidd mentrus ac, yn hynny o beth, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at yr agenda fenter yng Nghymru.

7. Mae CYD Cymru wedi sicrhau sedd wrth y bwrdd mewn meysydd polisi allweddol ar lefel genedlaethol a lleol ac wedi dod o hyd i ffordd effeithiol o ganolbwyntio gweithgareddau i gryfhau ymwybyddiaeth mewn ffora polisi a grwpiau targed allweddol. Mae newidiadau ym maes polisi trosglwyddo asedau, ynghyd â diffyg eglurder ynglŷn â pha sefydliadau sy'n arwain pa agenda bolisi a hynny'n fwyaf nodedig rhwng CYD Cymru a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, ond hefyd rhyngddynt â Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi herio'r llwyddiant hwn yn y misoedd diwethaf.

8. Mae presenoldeb CYD Cymru yn gryfach ac yn haws ei gynnal yn y de nag y mae yn y gogledd, lle mae darpariaeth effeithiol yn dibynnu mwy ar yr aelodau eu hunain.

9. Mae CYD Cymru yn cyflawni holl sbectrwm y swyddogaethau y byddai sefydliad seilwaith mentrau cymdeithasol fel rheol yn eu darparu. Mae hynny'n amrywio o gynnig cymorth i fod yn llais a hyrwyddo cysylltiadau strategol. Mae wedi cyflawni'r swyddogaethau hyn drwy fod yn effro i gyfleoedd newydd ac ysgogi trafodaethau yn eu cylch.

10. Mae ehangder y gweithgareddau hyn, ynghyd â'r duedd bresennol, sef bod y sector cymorth i fentrau cymdeithasol yn cyfuno, wedi herio gallu CYD Cymru i gynnal proffil clir. Serch hynny, mae wedi llwyddo i'w hailgyfeirio'i hun yn strategol ac mae'r canlyniadau cyntaf i'w gweld yn y meysydd gweithgarwch newydd sy'n datblygu a chynnydd sylweddol yn yr incwm a gynhyrchir. Mae angen iddi gamu ymlaen â hyn yn awr drwy gyfleu arlwy diwygiedig clir i ddangos ei gwerth i'r adran yn Llywodraeth Cymru sy'n ei noddi yn ogystal ag i'w phrif bartneriaid.

11. Bydd datblygu cynllun gwaith mwy pendant a chasglu tystiolaeth briodol am y cysylltiad rhwng gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau CYD Cymru, a hynny'n benodol yng nghyswllt canlyniadau datblygu economaidd, yn arf pwysig. Bydd angen cofio bod y canlyniadau a gyflawnir gan CYD Cymru yn mynd ymhell y tu hwnt i agenda yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'u bod yn rhychwantu sawl un o adrannau ac agendâu polisi Llywodraeth Cymru.

12. Un o'i phrif amcanion oedd cynyddu'r incwm y mae hi ei hun yn ei chynhyrchu er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar arian Llywodraeth Cymru, ac fe gynhwyswyd hyn yn y targedau y cytunwyd arnynt ar ôl Adolygiad 2011. Mae cyfrifon rheoli CYD Cymru yn dangos bod y duedd flaenorol i ddibynnu ar arian craidd wedi'i gwrthdroi. Arian craidd oedd 67% o incwm CYD Cymru yn 2011/12 ac mae'r gyllideb ar gyfer 2012/13 yn awgrymu mai dim ond 34% o gyfanswm incwm CYD Cymru fydd yr arian craidd.

# 5. Argymhellion

Fel rhan o gwmpas ein gwaith, yn ôl ein cytundeb â Llywodraeth Cymru, gofynnwyd inni adolygu i ba raddau yr oedd y sefydliadau a oedd yn cael cymorth yn cydweddu â pholisïau ac amcanion strategol Cymru at y dyfodol. Lle'r oedd hynny'n briodol, gofynnwyd inni hefyd gynnig argymhellion ynglŷn â rhagor o gymorth gan Lywodraeth Cymru i'r sefydliadau dan sylw.

***Ar sail ein gwaith, ein barn ni yw bod nodau ac amcanion penodol Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, fel y'u lluniwyd, yn dal yn berthnasol ac yn briodol gan mwyaf. Rydym yn argymell:***

1. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu arian craidd ar gyfer CYD Cymru ond y dylai'r arian dapro dros gyfnod o 2 flynedd.**

   Er bod cyfran flynyddol yr incwm a gaiff CYD Cymru drwy arian craidd Llywodraeth Cymru, o'i chymharu â thrwy ffynonellau ariannu eraill, wedi newid yn ddiweddar, yr awgrym ar hyn o bryd yw, ar lefel yr ariannu craidd presennol, mai tua 1/3 o holl arian CYD Cymru yw cyfraniad y Llywodraeth. Mae hyn yn awgrymu na all y sefydliad ganolbwyntio'n llwyr ar wireddu targedau Perfformiad Llywodraeth Cymru y cytunwyd yn eu cylch yn unig. Mae angen i'r fframwaith perfformio y cytunir arno rhwng Llywodraeth Cymru a CYD Cymru adlewyrchu'r sefyllfa hon.

   Hefyd, nodwn fod y cymorth y bydd CYD Cymru yn ei roi i Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes, i egin Ymddiriedolaethau ac i brosiectau eraill yn gymorth ymatebol gan mwyaf yn hytrach nag yn gymorth rhagweithiol a'i fod yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau a wneir ar lefel sefydliadau'r buddiolwyr eu hunain. Felly, nid oes modd rhagweld taflwybr pob ymyriad nac asesu perfformiad CYD Cymru ar sail y canlyniadau penodol hyn.

   Felly, dylid adolygu fframwaith perfformio CYD Cymru eto er mwyn rhoi sylw, ymhlith pethau eraill, i: ystod y meysydd polisi y mae gweithgareddau ymddiriedolaethau datblygu, ac felly waith CYD Cymru yn effeithio arnynt; cymhlethdod y llwybrau y gall gweithgareddau CYD Cymru eu dilyn o bosibl er mwyn cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau, ac yn anad dim, sylweddoli bod angen fframio perfformiad CYD Cymru mewn naratif ehangach sy'n golygu bod modd adolygu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau meintiol yn eu cyd-destun strategol a gweithredol ehangach. Yna, dylai CYD Cymru allu cyflawni rhaglen waith eglurach a fydd yn sicrhau gwell effeithlonrwydd a thryloywder o ran penderfyniadau rheoli ynglŷn â dyrannu adnoddau (amser, arbenigedd ac arian). Dylid manteisio ar y cyfle hefyd i ddangos y cysylltiad yn fwy amlwg rhwng gweithgareddau a chyflawniadau CYD Cymru a thargedau ac amcanion polisïau gwahanol bortffolios, fel y'u rhestrir yn y Rhaglen Lywodraethu. Y tu hwnt i'r cysylltiad ag amcanion a thargedau'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, mae cysylltiad hefyd rhwng gweithgareddau CYD Cymru ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn meysydd polisi eraill, megis, er enghraifft, mynd i'r afael â thlodi ac adfywio, diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn sgîl adolygiad Simpson, fel y'i hadlewyrchir yn ymrwymiadau Cefnogi Pobl, a'r canolbwyntio ar gyflwyno camau effeithlonrwydd ynni ym mhortffolio'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Rydym yn argymell nifer o gamau er mwyn cyflawni hyn:

2. **Dylai CYD Cymru gasglu data a thystiolaeth yn rheolaidd am ddatblygiad a pherfformiad yng nghyswllt cyflawniad a chyfraniad cyffredinol rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, gan ddefnyddio arolwg blynyddol tebyg i hwnnw a ddefnyddir gan Locality[16] yn Lloegr.** Bydd hyn yn golygu bod modd monitro a mynegi perfformiad cyffredinol y sector gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, yr arian y llwyddir i'w ddenu ar gyfer gweithgareddau Ymddiriedolaethau Datblygu (gan gynnwys o ffynonellau menter a darparu gwasanaethau), gwerth a maint yr asedau sydd o dan reolaeth (gwerthoedd cyfalaf a chynhyrchu refeniw), cynhyrchu incwm sy'n gysylltiedig â mentrau, staff a gyflogir, gwirfoddolwyr a ddenwyd, partneriaethau sydd ar waith ac ati.

[16] Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu'r DU sydd wedi'i hailenwi a'i hailfrandio

3. **Ochr yn ochr â'i hymyriadau a'i hymgysylltu beunyddiol, dylai CYD Cymru sefydlu proses systematig a myfyriol a fydd yn ei galluogi i adeiladu corff o dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau.** Bydd y sylfaen dystiolaeth, nid yn unig yn gymorth i CYD Cymru a'i phartneriaid gryfhau ymwybyddiaeth o'i dylanwad sylfaenol, bydd hefyd yn gymorth iddi greu cof sefydliadol cryfach byth a fydd yn cyfoethogi'r ymwneud a'r dysgu rhwng cymheiriaid gan sicrhau parhad ac olyniaeth ymhlith gweithwyr ac aelodau allweddol.

4. **Dylid cydnabod mewnbynnau a chyfraniadau CYD Cymru i bolisïau a strategaethau a chofnodi hynny ar draws ystod meysydd polisi a diddordebau Llywodraeth Cymru.** Gan gydnabod y bydd yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn awyddus i ganolbwyntio ar fewnbynnau sy'n gysylltiedig â menter, dylid rhoi clod pendant i CYD Cymru am ddatblygiadau polisi a thrafodaethau sy'n digwydd ar draws ystod ehangach o adrannau.

5. **Dylai'r targedau ariannu craidd y bydd Llywodraeth Cymru a CYD Cymru yn cytuno arnynt bwysleisio, yn benodol, y cymorth y mae CYD Cymru yn ei roi i feithrin Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a chreu gweithgareddau incwm/menter newydd ar gyfer Ymddiriedolaethau Datblygu a chyfryngau adfywio cymunedol priodol eraill ledled Cymru.** Felly, yn hytrach na chanolbwyntio ar gefnogi gweithgareddau sefydledig y rhwydwaith, dylid troi at gefnogi gweithgareddau menter ac arloesi newydd.

   Er ein bod yn credu mai parhau â'r ariannu craidd yw'r ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen o hyd ar hyn o bryd, credwn hefyd y dylid gosod targedau a fydd yn caniatáu i Fwrdd CYD Cymru gynllunio'n fwy effeithiol ac yn fwy realistig ar gyfer y dyfodol nes daw'r adeg pan fydd yr arian craidd naill ai'n swm sylweddol lai neu fod yr arian craidd yn cael ei drosglwyddo i bwrs arian prosiect sydd â thargedau a chanlyniadau cyfyng a phenodol ynghlwm ag ef.

6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfnod ariannu nesaf, ddatblygu gyda CYD Cymru raglen y cytunir arni lle y bydd yr arian craidd ar gyfer gweithgareddau CYD Cymru yn tapro ac yn cael ei ddisodli gan drefniadau ariannu mwy penodol a chyfyng sy'n seiliedig ar brosiect. Ac ystyried y gwerth am arian a sicrheir ar hyn o bryd, a bod dulliau CYD Cymru o weithio wedi'u seilio'n gadarn ar ei haelodaeth a'r ffaith bod y cyfuniad penodol o wasanaethau sefydliad seilwaith yn dibynnu'n llwyr ar rôl a safle CYD Cymru yn y rhwydwaith ymarferwyr, ni chredwn y gellir dadlau o blaid caffael gwasanaethau er mwyn datblygu a rhoi cymorth i ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru. Bydd cynaliadwyedd CYD Cymru yn hanfodol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau o'r fath fel rhan o'i chenhadaeth a'i hamcanion craidd.

   Er mwyn i CYD Cymru, mewn partneriaeth â'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, allu mireinio a chryfhau'r trefniadau adrodd a monitro a chynhyrchu corff o dystiolaeth ynglŷn â'r gwahanol linynnau o weithgarwch a chynlluniau strategol, (fel y'u nodir yn argymhellion 2 a 3 uchod), dylid darparu blwyddyn arall o arian craidd hyd at fis Mawrth 2014.

   Serch hynny, yn y flwyddyn wedi hynny, sef at fis Mawrth 2015, ni ddylid ond darparu 50% o'r arian craidd a ddarperir ar hyn o bryd, er mwyn i'r sefydliad a Llywodraeth Cymru allu newid eu rhaglenni gwaith a chanolbwyntio ar drefniadau ariannu ar gyfer prosiectau penodol.

   Fe all prosiectau a ariennir fel hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i feysydd penodol megis arferion trosglwyddo asedau; gwaith datblygu strategol i ganfod ac asesu potensial

menter gwahanol fathau o asedau; darparu cymorth i fentrau ac elfennau cynhyrchu incwm mewn Ymddiriedolaethau Datblygu; denu grwpiau targed yng nghyd-destun trosglwyddo asedau; datblygu arfau i roi polisïau ar waith ar gyfer y llywodraeth a'i hasiantaethau (e.e. Awdurdodau Lleol, y Comisiwn Coedwigaeth).

## Atodiad 1: Cyfweliadau a gynhaliwyd

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

- Duncan Hamer
- Karyn Pittick
- Iain Willox

**Aelodau Bwrdd CYD Cymru**

- Elwyn James, Ffatri'r Celfyddydau a Chadeirydd CYD Cymru
- Martin Price, Cadeirydd SFW ac aelod o Fwrdd CYD Cymru
- Ian Issaac, Adfywio Cynaliadwy Afan Sandfields Newydd ac aelod o fwrdd CYD Cymru
- Barry Shiers, Vision 21

**Rhanddeiliaid eraill**

- Derek Walker, Cyfarwyddwr, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Mark White, y Banc Elusennau
- Jane Lee, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Geoff Jones, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- San Leonard, Prif Weithredwr
- Menna Jones, Antur Waunfawr
- Paul Tincello, Cyngor Sir Wrecsam
- Lis Burnett, Prifysgol Morgannwg

**Sefydliadau cyfatebol yn y Deyrnas Unedig**

- Hugh Rolo, Locality
- Ian Cooke, Cyfarwyddwr Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yr Alban

## Atodiad 2: Pwrpasau Llywodraeth Cymru wrth roi arian craidd i CYD Cymru 2008-11

Atodlen 1

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru – Targedau, Nodau, Camau Gweithredu a Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2008-2011

### Helpu i greu a sefydlu Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a rhai sy'n egino yng Nghymru

| Nod CYD Cymru 2008-2011 | Camau Allweddol | Targedau/Dangosyddion Perfformiad 2008-2011 |
|---|---|---|
| Tyfu'r rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru | • Hybu model yr ymddiriedolaeth datblygu ymhlith cymunedau a sefydliadau sydd â diddordeb yn y dull hwn o adfywio cymunedau a mentrau cymdeithasol.<br>• Helpu i greu a datblygu ymddiriedolaethau datblygu newydd a rhai sy'n egino drwy gyfrwng Canllawiau Cychwyn a Phrawf Iechyd CYD. | • 9 aelod llawn a rhai sy'n egino bob blwyddyn a 5 o aelodau/partneriaid cysylltiol newydd<br>• 10 sefydliad newydd a rhai sy'n egino bob blwyddyn yn cael gwasanaethau cyngor i ddechrau gan CYD a Llawlyfr Datblygu a Phrawf iechyd CYD. |
| | • Helpu ymddiriedolaethau datblygu newydd a rhai sy'n egino drwy gyfnewid gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a dysgu gan gymheiriaid. | • Trefnu 3 ymweliad cyfnewid ac astudio'r arferion gorau i ymddiriedolaethau newydd a rhai sy'n egino bob blwyddyn. |
| | • Hybu ymddiriedolaethau datblygu drwy gyflwyniadau i ymarferwyr, partneriaid a'r sector cyhoeddus.<br>• Hybu ymddiriedolaethau datblygu fel cyfrwng 'Angor Cymuned' er mwyn darparu Rhaglen Cymunedau Nesaf a'i chanlyniadau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a datblygu asedau. | • Hybu datblygu cysyniad yr ymddiriedolaeth datblygu yng Nghymru ymhlith 12 o sefydliadau, gan gynnwys: Ymarferwyr cymunedol, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, y sector cyhoeddus, tai a phartneriaid allweddol eraill. |

### Datblygu Rhwydwaith Dysgu Ymarferwyr CYD Cymru a galluogi Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes i dyfu a gweithredu'n dda.

| Nod CYD Cymru 2008-2011 | Camau Allweddol | Targedau/Dangosyddion Perfformiad 2008-2011 |
|---|---|---|
| Hwyluso Rhwydwaith Dysgu Ymarferwyr CYD Cymru a thyfu Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n bodoli eisoes. | Rhwydwaith Dysgu Ymarferwyr<br>• Trefnu a darparu digwyddiadau'r Rhwydwaith ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru a Chynhadledd bob dwy flynedd.<br>• Trefnu ymweliadau dysgu gan gymheiriaid a chyfarfodydd cyfnewid i ymddiriedolaethau datblygu drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau.<br>• Datblygu a rheoli fforwm rhyngweithiol, adnoddau rhwydwaith ar-lein ac astudiaethau achos digidol drwy wefan CYD Cymru<br>• Ymestyn dysgu Rhwydwaith CYD i gyrff a mentrau cymunedol eraill drwy Ysgol Adfywio Cymru | • Trefnu 3 digwyddiad rhwydwaith CYD Cymru y flwyddyn mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru.<br>• Trefnu 1 Gynhadledd Genedlaethol (Cymru-gyfan) bob yn ail flwyddyn.<br>• Trefnu 6 ymweliad cyfnewid arferion gorau a dysgu gan gymheiriaid ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys 2 ymweliad Datblygu Asedau.<br>• Datblygu rhagor ar wefan CYD er mwyn i ymarferwyr allu dysgu ar-lein drwy rwydweithio, Fforwm Ymddiriedolaethau Datblygu, adnoddau ac astudiaethau achos.<br>• Datblygu a hyrwyddo astudiaethau achos digidol CYD ar gyfer CYD a'r wefan.<br>• Hybu cyfleoedd datblygu a hyfforddi drwy gyfrwng Ysgol Adfywio Cymru ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol eraill (12 sefydliad y flwyddyn). |
| | Datblygu Asedau a'u Trosglwyddo<br>• Ar sail profiad a hanes llwyddiant CYD, hybu cyfleoedd i fwrw ymlaen â datblygu a throsglwyddo asedau ym mherchnogaeth y gymuned yng Nghymru.<br>• Tynnu sylw at yr arferion gorau a datblygu astudiaethau achos wrth ddatblygu asedau gan Rwydwaith CYD.<br>• Trefnu seminarau ymarferol 'Sut mae gwneud hyn' CYD ar gyfer mentrau cymdeithasol a chymunedol.<br>• Datblygu rhaglen seminarau 'Datblygu Asedau' yng Nghymru i gryfhau ymwybyddiaeth y sector cyhoeddus ar y cyd â Chynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. | • Cynhyrchu astudiaethau achos arferion da ym maes datblygu asedau ar draws rhwydwaith yr ymddiriedolaethau datblygu (gweler isod).<br>• Trefnu 2 ymweliad cyfnewid datblygu asedau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig y flwyddyn (gweler uchod).<br>• Trefnu 2 seminar CYD Cymru 'Byw nid Baich'' y flwyddyn.<br>• Trefnu 1 seminar CYD Cymru 'Datblygu Asedau' ar gyfer awdurdodau lleol y flwyddyn. |
| | Datblygu Sefydliadol a Gweithredol.<br>• Cynnal arolwg o anghenion datblygu aelodau<br>• Galluogi twf a datblygiad ymddiriedolaethau datblygu sefydledig drwy seminarau, hyfforddiant a phecynnau CYD.<br>• Hwyluso Fforwm Ymddiriedolaethau Datblygu Mwy o Faint i | • Hybu deunyddiau hyfforddi CYD i ymddiriedolaethau a'r arfau sydd ar gael, gan gynnwys Cyflymydd Menter CYD, Prawf Iechyd CYD a chanllawiau Datblygu Asedau CYD a briffiau Caffael.<br>• Datblygu Fforwm Ymddiriedolaethau Datblygu mwy o faint yng Nghymru i ganfod cyfleoedd datblygu, rhannu'r arferion gorau a |

| | | |
|---|---|---|
| | rannu arferion da, datblygu cyfleoedd newydd a chefnogi ymddiriedolaethau datblygu newydd a rhai sy'n egino.<br>• Cefnogi datblygu grwpiau clwstwr gofodol o ymddiriedolaethau datblygu.<br>• Nodi'r arferion gorau yn rhwydwaith CYD a datblygu astudiaethau achos. | chynnal cyd-fentrau.<br>• Datblygu a helpu 2 glwstwr o'r rhwydwaith ymddiriedolaethau datblygu gofodol y flwyddyn.<br>• Cynhyrchu 10 astudiaeth achos newydd y flwyddyn ar gyfer yr arferion gorau yn rhwydwaith CYD a'u lledaenu drwy'r wefan a chyhoeddiadau (gan gynnwys 2 Datblygu Asedau a 2 ar Gaffael. |
| | Caffael<br>• Hwyluso a chymryd rhan mewn gwaith gyda sefydliadau megis Gwerth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff eraill yn y trydydd sector.<br>• Cynhyrchu astudiaethau Achos Caffael drwy dendro, rheoli contractau ac arferion caffael llwyddiannus yn Rhwydwaith CYD. | • Gweithio gyda Gwerth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r trydydd sector i oleuo a datblygu Polisi Caffael ym maes Ymarfer.<br>• Cynhyrchu astudiaethau achos ac annog dysgu gan gymheiriaid. |
| | Buddsoddi newydd<br>Cyfleoedd buddsoddi newydd<br>• Hybu buddsoddi ac arian benthyg i rwydweithiau ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol yng Nghymru.<br>• Hybu a chefnogi Cronfa Fenter Gymdeithasol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. | • Hybu cyfleoedd i gael grantiau a buddsoddiadau i ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol Cronfa Meithrin Capasiti CYLCH.<br>• Hybu portffolio o gyfleoedd sydd ar gael eisoes a chyfleoedd newydd ym maes cronfeydd benthyca a chyfalaf amyneddgar (Cyllid Cymru, Y Gronfa Fuddsoddi mewn Cymunedau, Cyllid Cymunedol a Chydweithredol) i ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol eraill. |
| | Cronfa Datblygu Asedau<br>• Gweithio gyda Chynulliad Cymru a phartneriaid ariannu eraill i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a datblygu asedau yng Nghymru. | • Datblygu cynigion ar gyfer Cronfa Datblygu Asedau penodol newydd yng Nghymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ac eraill. |
| | Rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd<br>• Cefnogi ymddiriedolaethau datblygu a chlystyrau Rhwydwaith CYD Cymru i ddatblygu rhaglenni arloesol a strategol fel rhan o Raglen Cydgyfeirio a Chystadleurwydd 2008-11. | • Sefydlu fforwm ac adnodd datblygu Cydgyfeirio rhyngweithiol ar-lein ar wefan CYD Cymru.<br>• Cefnogi rhwydwaith yr ymddiriedolaethau datblygu i ddatblygu cynigion Cydgyfeirio cenedlaethol, gofodol neu thematig. |

# Hybu Arferion Da a Chofnodi Gwerth a Dylanwad Ymddiriedolaethau Datblygu

| Nod CYD Cymru 2008-2011 | Camau Allweddol | Targedau/Dangosyddion Perfformiad 2008-2011 |
|---|---|---|
| Hybu Arferion Da a Chofnodi Gwerth a Dylanwad Ymddiriedolaethau Datblygu | Hybu a chofnodi arferion da<br>• Cofnodi a chael tystiolaeth ynglŷn â thwf a llwyddiannau allweddol ac anghenion datblygu ymddiriedolaethau datblygu drwy Arolwg Aelodaeth blynyddol.<br>• Hybu arferion da a gwybodaeth drwy Gynhadledd CYD<br>• Hybu ymddiriedolaethau datblygu a'u cyflawniadau ymhlith partneriaid allweddol a'r cyfryngau. | • Cynnal Arolwg blynyddol ymhlith Rhwydwaith yr Ymddiriedolaethau Datblygu a darparu gwybodaeth ar gyfer cronfeydd data Mentrau Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol.<br>• Hybu'r arferion gorau yng Nghynhadledd genedlaethol bob dwy flynedd CYD Cymru drwy gyflwyniadau, gweithdai ac ati.<br>• Hybu cyflawniadau ymddiriedolaethau datblygu i'r cyfryngau drwy ddatganiadau i'r wasg, cyfryngau digidol ar-lein ac astudiaethau achos a chyhoeddiadau. |
| | Hybu Arfau Ansawdd ac Effaith ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu<br>• Datblygu rhagor ar hyfforddiant Cyfrifyddu Cymdeithasol a hwylusir gan CYD Cymru i ddatblygu'r rhwydwaith a sgiliau ymarferwyr, i ledaenu cyfrifyddu cymdeithasol yn ehangach a chynyddu nifer yr hyfforddwyr cyfrifyddu cymdeithasol cymeradwy a chadeiryddion y panel archwilio yng Nghymru.<br>• Cefnogi ymddiriedolaethau datblygu i wneud gwaith Cyfrifyddu Cymdeithasol.<br>• Darparu Profion Iechyd CYD.<br>• Hybu ymwybyddiaeth o Gyfrifyddu Cymdeithasol ac Arfau Ansawdd ac Effaith eraill ymhlith ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol eraill yng Nghymru. | • Datblygu SAN Cymru mewn partneriaeth â CYLCH a phartneriaid Mentrau cymdeithasol eraill.<br>• Hybu a sicrhau ymwybyddiaeth o Archwiliadau a Chyfrifyddu Cymdeithasol yng Nghymru.<br>• Cefnogi 4 ymddiriedolaeth datblygu ddechrau cyfrifyddu cymdeithasol bob blwyddyn.<br>• Hybu Arfau Ansawdd ac Effaith eraill (e.e. Ad-daliad Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ac arf ar-lein LM3) ymhlith ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru drwy adnoddau ar-lein drwy gyfrwng gwefan CYD Cymru ac 1 seminar y flwyddyn. |
| | Rhwydweithiau Mentrau Cymdeithasol<br>• Cymryd rhan mewn datblygu Polisïau Mentrau Cymdeithasol a phartneriaethau traws-sector drwy gyfrannu'n frwd at ddatblygu a hybu SEC Cymru.<br>• Cymryd rhan mewn Rhwydweithiau Mentrau Cymdeithasol Cenedlaethol neu Ofodol er mwyn datblygu polisïau, cefnogi datblygu a hybu arferion da ar gyfer mentrau cymdeithasol | • Cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisïau a hybu'r sector drwy gyflwyniadau ac adroddiadau yn ôl y gofyn.<br>• Cynrychiolydd CYD Cymru i fynychu holl gyfarfodydd grŵp llywio Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru.<br>• Mynychu Cyfarfodydd Cyswllt Trydydd Dimensiwn y Gweinidog a Chyfarfodydd Pwyllgor fel sy'n briodol.<br>• Mynychu 3 chyfarfod y flwyddyn gyda Rhwydweithiau Mentrau |

| | | |
|---|---|---|
| | yng Nghymru. | Cymdeithasol |
| | Rhaglen Cymunedau Nesaf yng Nghymru<br>• Hybu rhwydwaith yr ymddiriedolaethau datblygu a chefnogi ymddiriedolaethau datblygu sy’n egino yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. | • Hybu ymddiriedolaethau datblygu (fel 'Angorau Cymuned’ a mentrau cymdeithasol) a datblygu asedau ymhlith mudiadau a mentrau cymunedol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn fodel ar gyfer Rhaglen Cymunedau Nesaf.<br>• Hybu ymddiriedolaethau newydd neu rai sy’n egino yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. |
| | Datblygu Cynaliadwy<br>• Canfod a chynhyrchu astudiaethau achos ymddiriedolaethau datblygu lle y gwelir arferion da o ran Datblygu Cynaliadwy. | • Cynhyrchu 1 astudiaeth achos y flwyddyn o effeithiau datblygu cynaliadwy Ymddiriedolaethau Datblygu. |
| | Hybu ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.<br>• Gweithio gydag ymddiriedolaethau datblygu mewn ardaloedd gwledig i hybu eu cyflawniadau a’u harferion da a datblygu cyfleoedd newydd. | • Hybu cyflawniadau a rhoi cymorth i Ymddiriedolaethau Datblygu newydd a rhai sy’n egino ac i rwydweithiau mewn ardaloedd gwledig gyda phartneriaid allweddol - Rhwydweithiau Datblygu Gwledig (cyn Grwpiau Leader) ac ati. |

# Cefnogi Sectorau a Chlystyrau Twf yn Rhwydweithiau Ymddiriedolaethau Datblygu a Mentrau Cymdeithasol Cymru

| Nod CYD Cymru 2008-2011 | Camau Allweddol | Targedau/Dangosyddion Perfformiad 2008-2011 |
|---|---|---|
| Hybu a hwyluso sectorau a chlystyrau twf yn Rhwydweithiau Ymddiriedolaethau Datblygu a Mentrau Cymdeithasol Cymru. | • Gweld arferion da a gweithgareddau, clystyrau a mentrau lle mae potensial ar gyfer twf. | • Hybu a thyfu rhwydwaith o Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru fel grŵp sector twf mentrau cymdeithasol.<br>• Nodi sectorau twf posibl eraill ac arferion da o fewn rhwydwaith yr Ymddiriedolaethau Datblygu a phartneriaid eraill.<br>• Hwyluso clystyrau o fewn rhwydwaith yr Ymddiriedolaethau Datblygu |
| | • Hwyluso 1 grŵp sector twf y flwyddyn i gefnogi Cynllun | • Cymryd rhan yn y rhwydwaith sy’n bodoli eisoes (fel uchod) |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 (gan gynnwys Datblygu Asedau, Tai ac adeiladu, sgiliau ac ati) | • Hwylus 1 grŵp sector twf y flwyddyn a chynhyrchu adroddiad ac argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009. |

**Ffynhonnell Fframwaith monitro perfformiad CYD Cymru 2008-2011**

## Atodiad 3: Pwrpasau Llywodraeth Cymru wrth roi grant arian craidd i CYD Cymru 2011-13

**Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru – Targedau, Nodau, Camau Gweithredu a Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2011-12**

**Atodlen 1 – Arian Craidd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru) 2011-12: Canlyniadau a Dangosyddion Perfformiad**

**1. Cryfhau ymwybyddiaeth o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru drwy gael sylw yn y cyfryngau.**

**Llwyddir i wneud hyn drwy:**

- Baratoi rhaglen waith a fydd yn meithrin cysylltiad â'r wasg a chyfryngau eraill.
- Trefnu cynhadledd genedlaethol CYD Cymru.
- Cydlynu gwaith ymddiriedolaethau datblygu gyda'r wasg lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu astudiaethau achos ar gyfer ymddiriedolaethau datblygu yn y sectorau sy'n flaenoriaeth i'r Cynllun Adnoddau Menter.

**Mesurir hyn drwy:**

Arolwg ymhlith rhanddeiliaid a chofnodi'r sylw yn y wasg.

2. **Cefnogi datblygu tair ymddiriedolaeth datblygu newydd**.

**Llwyddir i wneud hyn drwy:**

- Ddilyn proses gymorth strwythuredig i ymddiriedolaethau datblygu e.e. drwy ganllawiau cychwyn Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu.
- Cysylltu ag awdurdodau lleol a chyrff eraill i ganfod cyfleoedd i greu a chefnogi ymddiriedolaeth datblygu newydd.

**Mesurir hyn drwy:**

Ffurfio tair ymddiriedolaeth datblygu newydd sy'n fasnachol hyfyw.

**3. Darparu dau weithdy i gefnogi datblygu ymddiriedolaethau datblygu ac adrodd ynglŷn â gwell dealltwriaeth o ymddiriedolaethau datblygu ymhlith y sector cyhoeddus.**

**Llwyddir i wneud hyn drwy:**

- Drefnu un gweithdy ar reoli adeiladau cymunedol.
- Trefnu un gweithdy ar 'Byw nid Baich'.

**Mesurir hyn drwy:**

Gynnal arolwg ymhlith rhanddeiliaid a'r niferoedd sy'n cymryd rhan.

4. Bydd CYD Cymru yn defnyddio’i phrofiad a’i harbenigedd ym maes ymddiriedolaethau datblygu i ychwanegu gwerth at waith cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a’r trydydd sector yng Nghymru. Bydd yn gwneud hynny drwy (a) cymryd rhan wrth ddarparu cyngor am bolisïau ar lefel strategol a chyfrannu at hynny a (b) lle bydd yn teimlo bod hynny'n briodol, cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu ei hamcanion polisi sy'n berthnasol i ymddiriedolaethau datblygu.

**Llwyddir i wneud hyn drwy:**

- Fynychu cyfarfodydd y Gweinidog a grwpiau cynghori.
- Cyngor ar wireddu ymrwymiadau’r maniffesto.
- Cyfarfodydd â swyddogion.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a rhwydweithiau, megis WSEV a chyda rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru a’r tu allan.
- Cyfarfodydd chwarterol gyda chyrff eraill sy’n rhoi cymorth i fentrau cymdeithasol ac a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Mesurir hyn drwy:**

Gofnodi camau gweithredu yn sgil cyfarfodydd a cheisio adborth gan randdeiliaid.

**5. Bydd CYD Cymru yn denu arian ychwanegol ar gyfer gwaith i hybu a datblygu ymddiriedolaethau datblygu sy’n bodoli eisoes yng Nghymru**

**Llwyddir i wneud hyn drwy:**

- Gynyddu aelodaeth CYD Cymru
- Ceisiadau i gyrff noddi a gweithio i ddatblygu ffynonellau Incwm newydd.

**Mesurir hyn drwy:**

Gynyddu incwm CYD Cymru at y diben hwn.

# Atodiad 4: Crynodeb CYD Cymru o'r hyn a gyflawnwyd yn 2011/12

**Atodlen 1 – Arian Craidd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru) 2011-12: Canlyniadau a Dangosyddion Perfformiad a gyflawnwyd - Crynodeb**

1. **Cryfhau ymwybyddiaeth o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru drwy gael sylw yn y cyfryngau**.
   - Cynhaliwyd 4 Seminar a digwyddiad i gryfhau'r ymwybyddiaeth o ymddiriedolaethau datblygu a hybu arferion da.
   - Presenoldeb ac arddangosfeydd mewn digwyddiadau eraill gan gynnwys y Gynhadledd Mentrau Cymdeithasol, Cynhadledd Cartrefi Cymunedol Cymru, Ffair Masnachu Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru.
   - 4 Astudiaeth achos wedi'u cynhyrchu ynglŷn â meysydd blaenoriaeth Cynllunio Adnoddau Menter.
   - Sylw yn y wasg a'r cyfryngau wedi'i fonitro
   - Arferion da wedi'u hybu drwy'r wefan, bwletinau a Phorth Datblygu Asedau newydd
2. **Cefnogi datblygu tair ymddiriedolaeth datblygu newydd.**
   - Ymddiriedolaethau Newydd wedi'u sefydlu ym Mhlas Cybi (Caergybi) a allai fod yn rhan o glwstwr mwy Cymunedau yn Gyntaf, 1 Swydd amser llawn yng Nglyn Wylfa (Wrecsam), rhagolygon am 7 o swyddi amser llawn, 15 o wirfoddolwyr ar hyn o bryd, Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gaerfyrddin (Tŷ Llanelli) rhagolygon o 8 o swyddi amser llawn, Ysbyty'r Glowyr Caerffili (Caerffili) 2 swydd amser llawn a 10 o wirfoddolwyr ac Elai (ACE Caerdydd), rhagolygon am 12 o swyddi amser llawn + 20 o wirfoddolwyr.
   - Cymorth i egin Ymddiriedolaethau yn Ninbych y Pysgod (menter gymdeithasol flaenllaw bosibl) rhagolygon am 10 +, Ymddiriedolaeth Llanbedr Pont Steffan (Trosglwyddo asedau Victoria Hall wedi'i sicrhau) 2 Amser llawn, rhagolygon am 3.
   - Ymholiadau ynglŷn ag ymddiriedolaeth newydd gan Ganolfan Lysaght Casnewydd, Canolfan Rhannu Casnewydd, Canolfan Mentrau Cymdeithasol Coleg y Drindod Caerfyrddin, Tŷ Llanrhymni, Caerdydd, Ymddiriedolaeth Cwm Llynfi Pen-y-bont ar Ogwr a Glofa'r Navigation, Partneriaid Caerffili wedi cynnwys Tai Cymru Unedig a Chyngor Sir Wrecsam.
3. **Darparu dau weithdy i gefnogi datblygu ymddiriedolaethau datblygu ac adrodd ynglŷn â gwell dealltwriaeth o ymddiriedolaethau datblygu ymhlith y sector cyhoeddus.**
   - Un Seminar am reoli adeiladau cymunedol yn Galeri Caernarfon lle'r oedd 45 o bobl yn bresennol.
   - Un Gynhadledd am Ynni Adnewyddadwy i Fentrau Cymdeithasol yn Sefydliad Glyn Ebwy ar y cyd â rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu yr Alban, lle'r oedd 120 o bobl yn bresennol.
   - Dwy Seminar SOS Pentref, un yng Nghaernarfon yn y Gogledd, 65 o bobl ac un yn Nhalgarth yn y De , 70 o bobl, yn hyrwyddo mentrau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a'r arian a'r cymorth sydd ar gael.

4. **Bydd CYD Cymru yn defnyddio'i phrofiad a'i harbenigedd ym maes ymddiriedolaethau datblygu i ychwanegu gwerth at waith cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd yn gwneud hynny drwy (a) cymryd rhan wrth ddarparu cyngor am bolisïau ar lefel strategol a chyfrannu at hynny a (b) lle bydd yn teimlo bod hynny'n briodol, cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu ei hamcanion polisi sy'n berthnasol i ymddiriedolaethau datblygu.**

    - Presenoldeb mewn 5 o Gyfarfodydd y Gweinidog a Chyfarfodydd Cynllunio cysylltiedig i Weinidogion ar gyfer Busnes, Menter Technoleg a Gwyddoniaeth, Llywodraeth Leol, Cymunedau ac Addysg a Sgiliau.
    - Cyfrannu at Bapur am Fentrau Cymdeithasol, cyfraniad y Trydydd Sector at amcanion yr adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a chyflwyno Papur arall am Fanteision Economaidd 'Defnyddio siopau sy'n wag dros dro ar y stryd fawr ' ar gyfer Cyfarfod Gweinidog yr adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.
    - Cyfrannu at ddatblygu polisïau, ac aelod o Fwrdd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, cyfarwyddwr cychwynnol Ynni Cymunedol Cymru, Aelod o Banel y Loteri Fawr a Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol Llywodraeth Cymru.
    - Yn bresennol yng ngweithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac wedi cynghori ynglŷn â Chanllawiau newydd am Asedau. Cyfarfod arall â Richard Baker ynglŷn â gweithgor Asedau Cymunedol TSPC a'r potensial ar gyfer datblygu trosglwyddo asedau'n gyfrwng ar gyfer mentrau cymunedol a chymdeithasol.
    - Cyfarfod â Sioned Rees ynglŷn â Blaenoriaethau Cynllunio Adnoddau Menter a mentrau cymdeithasol.
    - Cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru a chyngor ynglŷn ag ymddiriedolaethau datblygu a rhwydweithiau bioamrywiaeth a banciau amser ac entrepreneuriaid sy'n siarad Cymraeg i Karyn Pittick.
    - Cymorth a chyngor i Gyngor Caerdydd ynglŷn â datblygu Polisi a chanllawiau ynglŷn â Throsglwyddo Asedau Cymunedol, yr Awdurdod Lleol cyntaf i'w fabwysiadu yng Nghymru.
    - Datblygu Porth Asedau Cymunedol newydd ar y We
    - Yn bresennol mewn Cynadleddau ynglŷn â Mentrau Cymdeithasol, Ynni Cymunedol, Tai Cymunedol Cymru, Cymunedau Trefol
    - Cyfarfod â 3 Chymdeithas Dai ynglŷn â'r potensial ar gyfer prynu ynni a thlodi tanwydd.
    - Cyfraniad blaenorol at ymchwiliad Llywodraeth Cymru ynglŷn â rôl mentrau cymdeithasol yng Nghymru a datblygu Rhaglen Adnewyddu Economaidd.
    - Cynhyrchu Maniffesto CYD Cymru

5. **Bydd CYD Cymru yn denu arian ychwanegol ar gyfer gwaith i hybu a datblygu ymddiriedolaethau datblygu sy'n bodoli eisoes yng Nghymru**

    - Mae cynnydd sylweddol wedi bod yng nghanran yr incwm arall yn hytrach nag Arian Craidd Llywodraeth Cymru. Roedd 'incwm arall' yn 2010/11 yn 5% ond erbyn 2011/12 roedd yn 32%. Roedd yr arian ychwanegol a ddenwyd hefyd wedi cynyddu 43% rhwng 2010/11 a 2011/12. Mae'r rhagolygon ar gyfer 'incwm arall' ar gyfer

2012/13 yn dangos cynnydd sylweddol eto i 67% a chynnydd yr arian ychwanegol a ddenir yn 156%.

- Darparu cymorth i Fentrau Cymdeithasol Cynlluniau Arbennig Canolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer asedau ar gyfer contract mentrau cymdeithasol.
- Darparu Seminarau SOS Pentref i BIG gyda'r Plunkett Foundation a Locality.
- Sefydlu Clwb Prynu Ynni i'r Aelodau a mentrau cymdeithasol eraill i leihau costau ac arbed ynni.
- Cymeradwywyd cais consortia ymarferwyr am £600,000 dan arweiniad CYD Cymru i'r Loteri Fawr am Raglen Camau Cynaliadwy ar gyfer 2012-2015 -- y cyllid cyfrifon cwsg cyntaf i'w ddyrannu yng Nghymru.
- Cais wedi'i gyflwyno i Gronfa Twf Economaidd Cymru am Gwmni Cyflenwi Ynni Moesegol ond yn aflwyddiannus.
- Cymorth i Ymddiriedolaethau sy'n bodoli eisoes ym maes Datblygu Asedau, Datblygu Strategol, Llywodraethu, arbed ynni, gan gynnwys sefydliad Glyn Ebwy, Ymddiriedolaeth Gorseinon, Ymddiriedolaeth Sandfields Newydd, Galeri Caernarfon.

## Atodiad 5: Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yr Alban a Locality: gweithgareddau ac ystyriaethau

**CYD yr Alban (Cyfarwyddwr Ian Cooke)**

Fe'i sefydlwyd yn 2003 ac mae ganddi 173 o aelodau a 44 o aelodau cysylltiol. Mae ffocws gwledig i'r aelodau, oherwydd tarddiad y gymdeithas er bod ymdrechion ar y gweill i gynyddu nifer yr aelodau trefol. Y nod yw cael ymddiriedolaeth datblygu ym mhob cymuned sy'n dymuno cael un.

Mae gan DTAS 5 o staff.

Noddwyr craidd DTAS yw Llywodraeth yr Alban (Is-adran y Trydydd Sector) a'r Loteri Fawr, drwy ei rhaglen Cymunedau Deinamig a Chynhwysol, sydd wedi dod i ben erbyn hyn.

Ei harlwy craidd yw:

- Cyngor
- Gwybodaeth
- Cymorth uniongyrchol i aelodau (yn enwedig ynglŷn â phrynu a datblygu asedau)
- Gwaith polisi

Mae DTAS yn rhan o Gynghrair Cymunedol yr Alban, cyfuniad ehangach o gyrff canolraddol sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol a sefydliadau datblygu cymunedol.

Mae ganddi gangen ymgynghori hefyd, The Pool, sy'n cynnig gwasanaethau'n bennaf i'r rheini sy'n dymuno datblygu ymddiriedolaethau a gweithgarwch economaidd yn y gymuned. Cynigir rhai o'r gweithgareddau hyn gan aelodau'r DTAS, sy'n cynyddu eu hincwm hwy eu hunain.

Mae DTAS yn llais dros ei haelodau gyda'r llywodraeth yng nghyswllt hybu perchnogaeth gymunedol. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae'n darparu'r Gwasanaeth Cymorth ar gyfer Perchnogaeth Gymunedol, fel rhan o Gynllun Gweithredu Grymuso Cymunedau i Lywodraeth yr Alban.

At hynny, mae DTAS yn cynnig cymorth a chyngor penodol i'w aelodau, gan gynnwys hyfforddiant a chymorth datblygu busnes sydd wedi'i deilwra'n arbennig (er bod hyn yn cael ei gyfyngu yn sgil yr adnoddau sydd ar gael). Fe all hyn fod yn gymorth eithaf manwl a dwys wrth sefydlu ymddiriedolaeth newydd. Mae hefyd wedi negodi nifer o fuddion ymarferol i ymddiriedolaethau, gan gynnwys swmp brynu ynni.

**Locality**

Ffurfiwyd Locality drwy uno'r DTA yn Lloegr a BASSAC (cymdeithas setliadau) yn 2011.

Mae gan y gymdeithas 423 o aelodau ac 145 o aelodau cysylltiol, ynghyd â 47 o staff, sydd wedi'u rhannu rhwng gwasanaethau canolog a chymorth rhanbarthol. Mae'r aelodau'n cyflogi oddeutu 5,500 o bobl, yn cynnwys mwy nag 20,000 o wirfoddolwyr ac mae ei hincwm dros £325 miliwn yn Lloegr. Mae'r aelodaeth yn cynyddu 14% y flwyddyn.

Mae Locality yn siarad a'r llywodraeth ar ran ei haelodau, er enghraifft ynglŷn â'r Bil Lleoliaeth a'r agenda gysylltiedig (hawl cymuned i herio) drwy ei pherthynas â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Yn y maes hwn, mae'n gweithio hefyd gyda phartneriaid strategol megis Mentrau Cymdeithasol y DU.

Ei harlwy craidd i aelodau yw:

- Gwybodaeth
- Cyngor
- Pecynnau cymorth/cychwyn busnes
- Cymorth i fentrau cymunedol
- Cymorth adnoddau dynol
- Cymorth un-ac-un wedi'i deilwra'n arbennig ynglŷn â chyllid ac ysgrifennu bid
- Swmp-brynu ynni
- Mynediad at The Pool – cymorth ymgynghorol (yn cynnwys aelodau Locality yn bennaf).

Lle bynnag y bo modd, bydd Locality yn cynnig cymorth wedi'i deilwra'n arbennig i'w aelodau drwy gyfrwng cynghorwyr arbenigol.

O ran themâu, mae Locality yn canolbwyntio ar:

- Berchnogaeth Gymunedol;
- Cyfrannau Cymunedol (mae wedi sefydlu uned ar y cyd â'r Co-ops UK yn ddiweddar);
- Asedau Cymunedol (drwy ei Uned Trosglwyddo Asedau)

Bydd Locality yn cydweithredu â DTAS, DAW a'r DA NI sydd newydd ei ffurfio ar lefel strategol (CEO) ac o ran cyfnewid gwybodaeth a'r arferion gorau.